tafod elái

www.tafelai.net

Gorffennaf 2002 | Pris 40c | Rhif 169

Cynllun Siopa Newydd

Mae'r cwmni sydd am ail-adeiladu rhan o ardal siopa Pontypridd wedi rhoi cais cynllunio newydd i mewn i Gyngor Sir Rhondda Cynon Taf. Yn y cais newydd bydd nifer o siopau ar Rhodfa Angharad yn edrych allan dros yr afon a bydd dwy bont yn cysylltu'r datblygiad gyda maes parcio newydd.

Wrth gerdded i lawr Stryd y Taf mae'n amlwg fod angen adnewyddu'r dref a rhoi ffocws newydd i'r siopa. Mae cynlluniau cwmni Teesland wedi eu newid yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus y llynedd ac maent yn cynnwys nifer o syniadau a grybwyllwyd gan y cyhoedd.

Bydd y datblygiad newydd yn creu 1,800 o swyddi gyda dros 100 yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae lle i 46 o siopau ac archfarchnad Sainsbury's a swyddfeydd yn y datblygiad £45m.

Bydd y cais yn cael ei ystyried gan Gyngor Sir Rhondda Cynon Taf gan ddisgwyl ymateb erbyn yr Hydref. Yn barod mae pobl yn troi o Bontypridd i Gaerdydd, Caerffili a Merthyr i wneud eu siopa. Os na wneir rhywbeth yn fuan ni fydd dyfodol i'r dref fel canolfan bwysig i'r cymoedd.

Cofiwch

Parti Ponty

6 a 7 Gorffennaf

Criw Teulu Twm Efail Isaf yn cystadlu ar noson olaf Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd

Siop Delynau Newydd

Mae cwmni Telynau Salvi wedi agor stiwdio arddangos newydd yng Nghymru ar Fehefin laf, 2002.

Wedi ei leoli yn gyfleus ar gyrion Dinas Caerdydd, yn 8 Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, mae dewis eang o delynau pedal a gwerin, ynghyd â cherddoriaeth a thannau, a holl anghenion byd y delyn ar gael yn y siop.

Mae croeso Cymreig i bawb yn y siop. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Allison ar 0207 928 8451 neu safle gwe: www.salviharps.com.

John a Maria's Wedi Cau

Mae'r hafan Eidalaidd hwn ynghanol Pontypridd wedi cau ar ôl cyfnod hir o wasanaeth i'r ardal. Bu'n fan cwrdd am bryd o fwyd i gannoedd o Gymry'r ardal a bydd colled mawr ar ei ôl.

A yw hwn yn gyfle i Glwb y Bont droedio i fyd newydd a darparu prydiau cyfandirol er mwyn denu Cymry Cymraeg Pontypridd i gefnogi'r Clwb?

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Medi 2002
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
2 Awst 2002

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd gaiwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CAMLAS ABERHONDDU

Aeth Cymdeithas Gymraeg Llantrisant ar daith ar gamlas Aberhonddu i orffen eu tymor o weithgareddau.

Roedd y cwch yn orlawn ar gyfer y daith i lawr y cwm drwy loc Brynich a thros yr Afon Wysg. Trefnwyd y diwrnod gan John Edmunds.

SIAN I ARWAIN MENTER CAERDYDD

Mae Menter Iaith Caerdydd wedi penodi Sian Lewis, sy'n Is-Gyfarwyddydd yr Urdd yn y De gyda chyfrifoldeb dros Gaerdydd a'r Fro, fel Swyddog Datblygu newydd y Fenter. Bu Sian yn brysur iawn dros y ddwy flynedd diwethaf ynghyd ag eraill o staff yr Urdd a llu o wirfoddolwyr lleol yn paratoi at yr Eisteddfod ym Mharc Bute.

Mae'r penodiad yn un amserol iawn gan fod y Fenter yn ffyddiog fod llwyddiant digamsyniol yr Eisteddfod wedi bod yn hwb aruthrol i ymdrechion y rhai sydd am weld y Gymraeg ar wefusau nifer cynyddol o blant, pobl ifanc ac oedolion y brifddinas.

Mae Sian, sy'n byw ym Mhontcanna, wedi ei magu yng Nghaerdydd. Bu'n ddisgybl yn Ysgolion Bryntaf a Glantaf cyn cymhwyso mewn Astudiaethau Busnes o Brifysgol Caerdydd. Mae'r Fenter, sy'n cael cefnogaeth ariannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn benderfynol o sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle canolog ym mhob agwedd o fywyd y ddinas. Rhan allweddol o waith Sian fydd cydweithio gyda'r Urdd a llu o bartneriaid eraill gan gynnwys Cyngor Sir Caerdydd i ehangu'r cyfleoedd a'r ddarpariaeth i Gymry Cymraeg a dysgwyr o bob oedran i ddefnyddio'r iaith.

John Rowlands
Cadeirydd Menter Caerdydd

Sian Lewis

Byw Gyda’r Ffrancwyr

Efallai nad yw'n 'politically correct' i'w ddweud ond yn fy marn i, dyn od yw’r Ffrancwr cyffredin. Ar ôl treulio deg mis eisoes yn eu plith, mae’r Ffrancwyr dal yn fy nrysu wrth ystyried eu bywyd bob dydd.

Mi gyrhaeddais Toulouse, sydd yn ardal Midi Pyrenées De Ffrainc, yn gynnar ym mis Medi ar ddechrau fy mlwyddyn dramor - fy nhrydedd flwyddyn o astudio Y Gyfraith a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ystod y misoedd yn dilyn rydw i wedi mwynhau, wedi dysgu ac wedi blasu bywyd gwahanol ond yn fwy na dim rydw i wedi gwylio a chrafu fy mhen!

Cyn ceisio dod o hyd i ryw fath o synnwyr yn rhai o agweddau bywyd Ffrengig fe ysgrifennaf ychydig am y Ffrainc drawiadol, hamddenol a diwylliannol.

I ddechrau, trwy chwarae rygbi dros dîm dan 23 Toulouse fe gefais gyfle i ymarfer, i chwarae ac i gymdeithasu gyda Ffrancwyr ifanc mewn awyrgylch gwbwl Ffrangeg. Rydw i wedi bod yn chwarae mewn gemau llawn a'r 'gallic flair' enwog ar gaeau caled ac o flaen cefnogwyr un-llygeidiog gyda’u hofferynnau swnllyd. Tipyn o brofiad yw chwarae mewn trefi rygbi adnabyddus fel Brive, Perpignan, Castres, Agen a Colomiers. Fe all y gêm yng Nghymru ddysgu o'r ffordd mae clybiau yn Ffrainc yn gosod pwysigrwydd ar rygbi ieuenctid a'u frwdfrydedd tuag ati.

Efallai mai’r rhan gorau o rygbi yn Ffrainc yw'r cymdeithasu. Mae'r arferiad yn hollol wahanol yma. Nid yw'r tuedd o fynd allan yn syth ar ôl gem ac yfed am oriau yn bodoli yma. Yn hytrach mae noson diwrnod gêm gyda'r bechgyn yn cynnwys cwrdd ar ôl cwpwl o oriau yn un o fwytai arbennig Toulouse ac yfed ambell i wydr cyn eistedd i fwyta. Rhyw bedair awr, pum cwrs a digon o win coch yn hwyrach ac mae 'sesiwn’ nos Sadwrn ar ben! Rhywfaint yn wahanol i gartre ond yn apelio yn fwy mae'n rhaid cyfaddef.

Mae'n wir bod y Ffrancwyr yn ddigon hamddenol tuag at gadw amser. Yma mae'n nhw'n ei alw'r 'quart d’heure Toulousain', sef pymtheg munud Toulouse. Hynny yw, mae'n rhaid derbyn y bydd pawb a phopeth yn cyrraedd pymtheg munud yn hwyr. Rydw i'n ddigon amyneddgar fel arfer ond mae'r rheol yma yn cynnwys gyrwyr bysiau, trenau a thaxis, hyd yn oed gweithwyr McDonalds!

Arferiad arall anghyffredin y Ffrancwyr yw 'streicio'. Mae’n siwr mi gafodd y protestiadau yn erbyn Jean-Marie Le Pen gyhoeddusrwydd yng Nghymru ac yn wir mi roedden nhw yn fwy dramatig na'r 'manifestation' gyffredin. Serch hynny, nid oes wythnos yn pasio heb fod rhyw fath o ddiwydiant yn streicio neu ryw grŵp o bobl yn protestio. Yn aml mae’r orsaf drenau neu'r swyddfa bost yn fwy tebyg i ffair wrth i'r gweithwyr benderfynu yn ddi-rybudd i streicio am ddiwrnod neu ddau.

Rhaid chwerthin hefyd wrth feddwl am agweddau eraill y Ffrancwyr: mae eu gwylio yn parcio yn anghredadwy. Os nad yw gwagle parcio yn ddigon o faint, eu hateb syml yw gyrru i mewn i'r ceir o amgylch er mwyn creu y lle! Nid oes car yn bodoli yn Toulouse heb ôl damwain ddifrifol.

Mae cerdded i lawr y stryd yn brofiad diddorol. Heb gyfnod Thatcher yn Ffrainc nid oes unrhyw gyfraith yn penodi y llefydd mae cŵn yn cael ystyried fel toiled. Diolch i hynny mae'n rhaid chwarae gêm o 'hop-scotch' wrth gerdded rhag ofn sathru yng ngwastraff un o filoedd o gŵn Toulouse.

Efallai yr hyn sydd yn crynhoi y Ffrancwyr orau yw eu hagwedd tuag at amser cinio. Serch y ffaith nad ydynt yn dechrau gwaith nes deg o'r gloch y bore, mae pawb yn anelu at un bwyty neu gilydd am ddeuddeg nes dau er mwyn mwynhau tri chwrs a photel arall o win! Mae'r ffaith bod popeth bron ar gau yng nghanol dydd yn boen ond, mae'n rhaid cyfaddef, hwn sydd yn gwneud Ffrainc yn wahanol. Maent yn benderfynol bod gan bawb yr hawl i wneud yr hyn maent eu heisiau, i fwyta yn dda ac i beidio brysio. Hyn, yn fwy na dim, sydd wedi ei wneud yn bleser i fyw yma.'

Robert Lamb

17eg Gwyl Ddrama Tafod Elái 2002

Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref 20—22 Tachwedd 2002
am 7 bob nos.
Ymunwch yn yr hwyl drwy gyflwyno -
Dawns, Drama Un Act, Noson Lawen, Cân, Pantomeim, Rifiw, Comedi.
Manylion pellach: 01443 402867
colin.williams@rhondda-cynon-taf.gov.uk

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Gadael Ysgol
Dyma'r cyfnod mae pob un ohonom wedi edrych ymlaen ato rywbryd neu gilydd adeg ein bywydau…….cyfnod gadael yr ysgol! Mae'n bosibl nad yw mwyafrif y darllenwyr yn cofio dathlu'r achlysur trwy fynd am doriad bach i leoedd egsotig fel y Grande Canaria. Dyna, ar y llaw arall, beth fydd rhai o'r ardal hon yn ei wneud ddechrau Gorffennaf! Pob hwyl iddyn nhw ac estynnwn bob dymuniad da i bobl ifainc yr ardal sy'n camu i mewn i gyfnod newydd.

Prif Swyddog
Llongyfarchiadau i Lowri Llewelyn ar gael ei hethol yn Brif Swyddog yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Bydd digon o sialens dros y flwyddyn nesaf i Lowri gan ei bod hefyd yn sefyll ei harholiadau Lefel A mewn pedwar pwnc. Pob hwyl i Lowri ymhob cyfrifoldeb newydd a ddaw i'w rhan yn ystod y flwyddyn academig newydd.

Graddio
Llongyfarchiadau hefyd i Llinos Jones ar raddio mewn Athroniaeth ym Mhrifysgol Bryste. Gobeithio'n fawr y caiff Llinos yr un boddhad a llwyddiant yn y fenter nesaf yn ei bywyd.

Colli
Mae'n siwr o fod yn weddol agos at y gwir i honni fod y rhai na fwynhaodd bryd o fwyd yn nhy bwyta **John a Maria's** ym Mhontypridd rhywbryd yn ystod yr hanner canrif diwethaf ymysg lleiafrif darllenwyr Tafod Elái. Tristwch mawr yw cofnodi iddo gau ei ddrysau am y tro olaf ynghanol Mehefin. Teg yw dweud y gedy'r digwyddiad fwlch mawr hefyd ym mywyd cymdeithasol ymwelwyr cyson tu allan i'r ardal hon. Yn wir, byddai cysylltiadau'n galw o bell gyda theuluoedd yn yr ardal gyda'r brif nod o "fynd am bryd o fwyd i John's!" Cadwodd y teulu y naws Eidaleg a'r safon arbennig o uchel trwy gydol yr amser. Y newyddion da yw fod y ddau fachgen yn mynd i ehangu'r Café Royale. Mae Maria'n haeddu cael y siawns i eistedd yn ôl ychydig er mwyn gwerthfawrogi ei theulu. Diolch yn fawr Maria.

Profiad diarhebol o ddwys gafodd Mrs Sandie Grindlay a hithau wedi trefnu achlysur ar y Bannau i godi arian i Ty Hafan. Roedd ei gŵr, Peter, yn helpu trwy stiwardio ar frig Pen y Fan pan ddioddefodd drawiad ar y galon ac roedd wedi marw erbyn cyrraedd yr ysbyty ac roedd y cyfan wedi digwydd cyn i'w wraig gael unrhyw wybodaeth. Danfonir cydymdeimlad syml yr ardal i Sandie a'r teulu yn eu colled.

Capel Salem

Perfformiodd aelodau'r Capel a phlant yr Ysgol Sul ddrama gerdd fer – "Rwth", – a gafodd ei hysgrifennu gan Howard Morse, ar nos Sul, Mehefin 16fed. Y cyflwynydd oedd Mrs Myra Davies a'r rhai a gymrodd y prif rannau oedd Mrs Lillian Davies a Mrs Lynn Cutts i gyfeiliant offerynnau pres aelodau'r Ysgol Sul, y gitâr gan y Gweinidog a'r organ gan Howard. Coronwyd y datganiad gyda chôr y Capel yn cyflwyno'r prif ganeuon.

Mwynhawyd y barbeciw blynyddol ar nos Wener, yr unfed ar hugain o Fehefin, gyda'r tywydd yn gwneud ei orau glas i fihafio! Cafwyd hwyl yn ystod ail ran y noson gyda phawb yn ymuno i ganu emynau o'r "Caneuon Ffydd" i gyfeiliant y gitâr gan y Gweinidog.

Cafwyd trafod brwd ar noson gyntaf "Grwp y Sgrepan". Testun y drafodaeth oedd pennod gyntaf "O Sgrepan Teithiwr" gan Gwilym H. Jones lle mae'r awdur yn mynnu fod yn rhaid cyflwyno'r neges mewn iaith newydd ag ystyrlon at angen yr oes hon. Does neb sy'n or - awyddus i addasu'n mynd i fod yn boblogaidd gan nad yw'n gyfforddus i siglo'r cwch. Tynnodd y Gweinidog ein sylw at y ffaith mai yn y lleiafrif fu William Wilberforce wrth ymladd yn erbyn caethwasiaeth. Erbyn hyn mae'n anodd credu nad oedd pawb yn ei gefnogi o'r dechrau. Cytunom oll mai Masnach Deg fydd yn dilyn yr un patrwm yn ystod y degawd neu ddau nesaf.

Yn sgil y drafodaeth uchod cynigiodd Mr Harri Davies y byddai'n syniad adeiladol i gynnwys cyfraniad byr ym mhatrwm "Myfyrdod y mis" neu "Munud i feddwl" yn y Tafod. Tybed beth fyddai ymateb darllenwyr, neu gapeli, eraill.

Da yw deall fod Elin Morse wedi dychwelyd adref yn saff o New Delhi. Mae Efa'r Enfield hithau siwr o fod wedi dechrau ar ei siwrnai ac ar ei ffordd i Calcutta. Dylai gyrraedd porthladd Portsmouth ganol Gorffennaf.

Y Gymdeithas Gymraeg:
Cafwyd noson hir gofiadwy yng nghwmni Mrs Enid Jones. Rhoddodd ddisgrifiad byw o'i dau ymweliad â Gerddi Monet yn Normandi gan godi chwant ar ei gwrandawyr i ddilyn yr un patrwm.
Treuliwyd noson arall yn olrhain cyfraniad James Kitchener Davies ym myd llenyddiaeth, gwleidyddiaeth ac addysg gan y byddai'n gant oed eleni a'i fod wedi marw ers hanner canrif. Diddordeb ychwanegol i drigolion yr ardal yw bod ei chwaer, Mrs. Tish Harcombe, wedi treulio ei blynyddoedd olaf yn Efail Isaf a Phentre'r Eglwys. Cofir am ei brwdfrydedd a'i chefnogaeth hithau i'r "Pethau".

Edrychir ymlaen i groesawu Mr Geraint Price i'n plith ddechrau Awst.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

MARWOLAETH
MRS SAL EVANS.

Ar fore Mercher 12fed o Fehefin bu farw Mrs Sal Evans gynt o Dylchawen ar ôl 102 o flynyddoedd. Roedd wedi ymgartrefi bellach yng Nghartref Gelliseren, Tonyrefail ar ôl ymweliadau âg ysbyty Brenhinol Llantrisant, a bu mewn cartre gofal ym Mhentre'r Eglwys am gyfnod yn disgwyl lle yn Gelliseren. Ton oedd ei chynefin.

Ganwyd Sal ym Mlaenau Ffestiniog ag yn rhyw dri mis oed daeth i lawr i'r de i fyw gyda'i nain yn y Maerdy ag yna symud i lawr i Goedlai yn ddiweddarach. Priododd â Evan yn 1923, a chollodd ef yn pedwar degau'r ganrif ddiwethaf.

Roedd wedi byw bywyd llawn ond roedd wedi cael llawer o ergydion erchyll drwy golli dau o blant allan o dri, bu farw Edwin a Magwen yn eu harddegau a gadael Mair.

Mae Mair a Trefor Owen yn byw yn Parklands, Tonyrefail a chanddynt dri o blant sef Beverly yn briod â Richard ac yn byw yn Llantrisant, Jeffrey yn briod â Ann, brodor o Sir Fôn ag yn byw yn y Ton, a Janet a'i chymar yn byw yn Aberdar a phlant ganddynt i gyd sydd yn orwyrion i Sal.

Bu'r cynhebrwng ar Llun 17eg o Fehefin. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Rose Mount Tonyrefail a chladdedigaeth ym mynwent y Trane Tonyrefail. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Paul Leader, Bethel Tonyrefail.

Cydymdeimlad dwys â'r holl deulu yn eu colled, roedd Sal yn gymeriad annwyl a diolch am y cof amdani.

MARW JOHN MASSEY ELLIS.

Cydymdeimlad dwys â theulu Mr a Mrs Hunt Heol Y Gilfach, Tonyrefail ar ôl eu profedigaeth yn ddiweddar. Ar fore Sul yr 8fed o Fehefin daeth y newydd am farwolaeth brawychus o sydyn John, priod eu merch Sioned sydd yn byw yn yr Wyddgrug. Pum mlynedd yn ôl gwasanaethwyd eu priodas yng Nghapel Y Ton, y briodas ola yn y

Mrs Sal Evans

Capel.

Adeiladwr oedd John yn ei alwedigaeth, a Sioned yn gantores broffesiynol a galw mawr arni ar hyd a lled Gogledd Cymru a thros y ffin.

Bu'r angladd ar ddydd Gwener14eg o Fehefin yn amlosgfa Wrecsam. Coffa da amdano a phob bendith i'r teulu yn eu galar, yn enwedig i Sioned.

Dymunwn wellhad buan i famgu Sioned. Mae Mrs Hunt mewn cartre yn ardal Penybont ar Ogwr ag yn anhwylus ar hyn o bryd.

AR Y CEFNFOR.

Rydym wedi croesawu'n ôl un o'n haelodau yng Nghapel Y Ton a'i ffrind, sef Mrs Beryl Davies a Mrs Silfia Howells. Mae'r ddwy wedi bod ar fordaith i Fôr Y Baltic. Dechre yn Dover ag i fyny Môr y Gogledd a thrwy gamlas Kiel, galw yn Estonia, Sant Petersburg yn Rwsia, Helsinki yn y Ffindir, Stockholm yn Sweden, Oslo yn Norwy a Chopenhagen yn Nenmarc ac yna dychwelyd i Gymru. Roedd y ddwy wedi mwynhau yn fawr iawn a thywydd braf ar hyd y daith. Edrych ymlaen i weld y lluniau.

GELLISEREN.

Mae Mrs Mary Church yn weddol dda yn y Cartre ag wedi symud ei hystafell er mwyn bod ar ei phen ei hun. Mae Mr Dilwyn Llewelyn yntau hefyd yn weddol. Mae Mrs Cassy Entwhistle hithau fel brenhines. Mae Dilwyn a Cassy yn gyn aelodau Ainon, a Mrs Church yn gyn aelod o Bethania, Cwmlai.

Mae'n dda fod Mrs Marian Crossley gynt o fferm Pantglas, sydd bellach yn byw yng Nghwmbran, yn well ar ôl cael stroc ysgafn, ag wedi dod adre ar ôl treulio amser yn yr ysbyty. Gwellhad buan iddi a phob bendith iddynt i gyd.

CENNARD

Er i'r pyllau gau i gyd, - yn eu bro
mae glo brig fu'n gysglyd
ers amser yn y gweryd;
geiriau ddoe'n gorwedd o hyd.

I'r wyneb codaist ti'r rheini - Cennard,
a'u cynnau i dafodi
yn wres dwys i'th gyrsiau di,
o dan dy bair dadeni.

Yn hwnnw trwythaist seiniau - yn batrwm
i bitran ar glustiau,
i lifo dros dafodau;
Catchphrase o wres sy'n parhau.

Ti'r gŵr fu'n `Torri'r Garw' - a rhoi byd
`geiriau bach' i gadw
i bob dysgwr a'u bwrw
`n `bont' a `sbardun' iddyn nhw.

Rhoi'n hers, yn dy bair, ein hiaith, - ei newid
yn awel o obaith,
a'i hegino hi ganwaith
o go' mud ei gaea' maith.

Cyril Jones

Cynhaliwyd noson i dalu teyrnged i Cennard Davies, Treorci, a fu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Barri a Phrifysgol Morgannwg yng Ngwesty De Courcey ar 21ain Mehefin.

Siop y Pentre
Village Trading Post

Pentre'r Eglwys

Popeth ar eich cyfer

Bwyd - diod
off-licence
popty-roliau

01443 218440

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

PRIODAS DAFYDD A LOWRI

Roedd yn achlysur llawen ar y seithfed o Fehefin yn Soar-Maesyrhaf, Castell-nedd, pan briodwyd Dafydd Rhys Roberts, mab Guto a Glenys Roberts, Maes-yr-haul, Llantrisant, a Lowri Wyn Bevan, merch Jill ac Alun Wyn Bevan, Castell-nedd.

Y Parchedig Gareth Morgan Jones oedd yn gwasanaethu ac yn y gwasanaeth canwyd emyn priodas newydd o waith Glynog Davies a darllenwyd gweddi bwrpasol o waith y Parchedig T. J. Davies. Darllenwyd yn ystod y gwasanaeth gan Mari ac Elen, chwiorydd Dafydd, a Non Gwilym ac Owen Martell, ffrindiau i Lowri, a chafwyd cyflwyniadau cerddorol gan Bedwarawd Nedd. Siwan Griffiths o Gastell-nedd oedd y forwyn ac roedd Elliw Powell, cyfnither fach bedair oed Dafydd yn forwyn y blodau. Y gwas oedd Tomos Morse, a'r ystlyswyr oedd Gethin Thomas a Trystan Bevan, brawd Lowri.

Cynhaliwyd y wledd briodas yn yr Orendy ym Mharc Margam a diddanwyd y cwmni gyda'r nos â thwmpath dawns gan Jac y Do.

Mae Dafydd yn beiriannydd cyfrifiadurol i'r cwmni dur, Corus ym Mhort Talbot, a Lowri yn newyddiadurwraig ac yn llais cyfarwydd ar Radio Cymru. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn y Creigiau.

LLONGYFARCHIADAU

Wrth ysgrifennu'r golofn hon cefais wybod am ganlyniad gradd Rhodri Morris, gynt o Lantrisant ond nawr yn byw ym Meisgyn. Graddiodd gydag Anrhydedd IIi yn y Gyfraith a Busnes o Brifysgol Abertawe.

DAWNSIO DISGO

Mae Catrin a Rhian Greaves yn brysur bob bore Sadwrn gyda gwersi dawnsio disgo a 'ballroom'. Yn

ddiweddar llwyddodd y ddwy i basio arholiad Gwobr Efydd mewn Dawnsio Disgo gyda Catrin yn ennill Rhuban Glas a Rhian yn cael Cymeradwyaeth Uchel. Da iawn chi!

PÊL DROED

Na – nid am Gwpan y Byd dwi'n mynd i sôn! (mae digon o hynny ar y cyfryngau'n barod.) Ond aeth Gwenan Haf i Aberhonddu'n ddiweddar i gynrychioli Rhondda Cynon Taf mewn gŵyl gafodd ei threfnu gan y F.A.W. Roedd timau yno o bob rhan o Gymru ac enillodd ein tîm dan-12 ni. Cafodd Gwenan ddiwrnod wrth ei bodd – ac mae hi wedi bod yn dilyn Cwpan y Byd yn frwd hefyd!

CODI ARIAN

Rwyf wedi sôn mewn misoedd blaenorol am ymgyrch Jayne Collier, Heol Greenlands i godi arian tuag at ei thaith i'r Ffindir ym mis Mawrth. Mae'r cyfanswm yn parhau i godi yn sgil nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Jayne e.e. trefnodd bod ei blwyddyn hi yn Ysgol Llanhari, sef Blwyddyn 9, yn cael gwisgo dillad heb fod yn wisg ysgol un diwrnod yn ddiweddar, dim ond i'r disgyblion gyfrannu punt yr un. Codwyd £140 a rhoddodd Jayne hanner yr arian i UNICEF a'r gweddill tuag at ei chronfa hi.

Cododd swm sylweddol hefyd mewn cwis i'r 'Brownies', 'Guides' a'r 'Scouts' ac mi fydd hi'n gwneud taith noddedig ym Mannau Brycheiniog yn fuan iawn hefyd.

SWYDD NEWYDD

Mis diwethaf soniais fod Eirlys Lamb wedi dechrau ar swydd newydd. Nawr, mae ei gŵr, Steve, wedi cael swydd newydd hefyd. Wedi 30 mlynedd o ddysgu, bydd ef yn ymuno â staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion. Bydd Steve yn dechrau ar ei swydd newydd ddechrau mis Medi a bydd yn gyfrifol am ESIS, y Gwasanaeth Cerdd a'r Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr. Llongyfarchiadau mawr.

DYCHWELYD O TOULOUSE

Bydd Robert Lamb wedi dychwelyd o Toulouse erbyn i'r rhifyn yma eich cyrraedd. Mae Robert wedi gwario blwyddyn yn Ffrainc fel rhan o'i gwrs prifysgol, a hoffwn ddiolch iddo am ei adroddiad yn sôn am ei brofiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

YMWELIAD Â PHARIS

Hefyd hoffwn ddiolch i Ffion Mai Williams, Hunter's Gate am gytuno i roi adroddiad bach i ni ar ymweliad diweddar â Ffrainc gydag Ysgol Llanhari – dyma'r hanes:

Ymweliad Bl 8 Ysgol Gyfun Llanhari â Pharis 15.05.02-19.05.02

O'r diwedd dyma'r diwrnod mawr yn cyrraedd! Fy nhrip cyntaf tramor heb fy rhieni. Am 12.00 y bore ar y 15fed o Fai gadawodd 41 o blant a 5 o athrawon yr ysgol yn Llanhari ar eu taith i Baris. Miss Catrin Parry drefnodd yr ymweliad gyda chymorth Mrs B Roderick, Miss Bethan Rees, Miss Awel Emlyn a Mr Rhun Jones.

Ar ôl teithio drwy'r nos, cyrhaeddom Twr Eiffel am 10 o'r gloch y bore. Llwyddais i gyrraedd dop y twr i weld yr olygfa brydferth. Aethom ar daith cwch i lawr yr afon Seine a gwelais lawer o adeiladau >

PRIODAS CERI A MARK

Achlysur hapus arall ar y seithfed o Fehefin oedd priodas Ceri (Treharne gynt) a Mark Morgan. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf a chynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r Heronston ger Penybont. Oherwydd natur gwaith Mark, nid oedd modd i'r cwpwl fynd ar eu mis mêl yn syth.

Yn hytrach, roedd yn rhaid i Mark fynd i Ffrainc i ddringo a parasiwtio ond yn anffodus digwyddodd 'avalanche' tra roedd Mark a'i gyd-ddringwyr ar Mont Blanc. Cwympon nhw dros 300 metr a bu'n rhaid i hofrennydd eu casglu a mynd â nhw i'r ysbyty yn Chamonix. Wedyn cafodd Mark ei gludo yn ôl i'r wlad hon ac mae'n gwella'n dda nawr.

Felly pob lwc i chi Ceri a Mark yn eich bywyd priodasol, a gwellhâd buan i Mark.

>> Hwyl ym Mharis

hardd Paris fel Notre Dame. Erbyn hyn roeddwn wedi blino yn lân ac yn ysu am gael cysgu ac roedd yr haul yn boeth iawn. Ymlaen a ni wedyn i Stade de France. Cyrhaeddom ein gwesty Le Bols dy Lys am 7.45 pm.

Yn gynnar y bore trannoeth gadawom i ymweld â Pharc Disney Paris. Cawsom amser da yno a hefyd ym Mharc Asterix y diwrnod wedyn. Roedd y parc yma yn llawn "roller coasters" a reidiau gwyllt! Gwell gen i y parc yma na pharc Disney roedd llawer mwy i wneud yno. Cawsom ddisgo gyda'r nos ond roeddwn yn llawer rhy flinedig i ddawnsio!

Ar y ffordd adre ar y 19fed arhosom i weld y Chateau de Fontainbleu. Roedd yn debyg i balas anferth a oedd yn llawn celfi crand. Cychwynnom ar ein taith adre am tua 11.00 am. Roedd taith hir arall o'n blaenau ond cyrhaeddom yn ôl yn yr ysgol yn ddiogel am 9.30 pm a'n rhieni yn aros amdanom.

Roedd y daith yn un blinedig ond yn brofiad anhygoel iawn. Cefais amser i'w gofio.

YSGOL GYFUN LLANHARI

Eisteddfod yr Urdd

Fe fu'r athrawon a'r disgyblion yn brysur iawn ers misoedd yn paratoi ac ymarfer ar gyfer eu cystadlaethau yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd.

Roeddem yn cystadlu mewn 18 gwahanol gystadleuaeth yn ystod dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn. Roedd y cystadlu yn frwd ac o safon uchel gel arfer. Cawsom lwyddiant gyda Eifion Weinzweig yn ennill ar y dawnsio gwerin unigol i fechgyn o dan 15. Daeth grwp roc Angharad o dan 15 oed yn drydydd, grŵp Cyflwyniad Llafar dan 15 yn ail a grp Cyflwyniad Llafar dros 15 yn drydydd.

Eifion Weinzweig

Cystadleuaeth Red Dragon

Fe enillodd Aneurin Barnard o flwyddyn 10 gystadleuaeth "Reach for the Stars" a drefnwyd gan radio Red Dragon. Llongyfarchiadau iddo.

Grŵp Roc Angharad

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

Croeso Adre
Roedd yn dda i gael clywed fod y Parch D.D.R. Phillips Heol Coronation wedi cael dod adre wedi cyfnod hir yn yr ysbyty. Croeso adre a dymuniadau gorau iddo.

Llongyfarchiadau.
Llongyfarchiadau i Robert a Rachel Tŷ Disgwylfa ar enedigaeth merch fach Hannah. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau hefyd i Richard a Kelly High Street ar enedigaeth mab sef Cole Daniel. Dymuniadau gorau i'r teulu bach hwn hefyd. Mae Robert a Richard yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail a Llanhari.

Byddin yr Iachawdwriaeth
Dydd Sadwrn Mehefin 22ain, teithiodd Cangen Gilfach o Fyddin yr Iachawdwriaeth i Ddinbych y Pysgod. Nid y trip ysgol Sul arferol mo hwn ond Rali a pharti ar y traeth i holl ganghennau de Cymru. Cafwyd amser ardderchog a mwynhaodd pawb y picnic a'r chwaraeon yn fawr iawn. Roedd llawer o ganghennau yn cymryd rhan yn eu plith Côr Plant Pentre a Bandiau Treganna a Risca. Roedd canu cynulleidfaol ar y traeth yn Gymraeg a Saesneg i gyfeiliant y bandiau. Roedd yn gyfle hefyd i weld hen gyfeillion ac i wneud ffrindiau newydd. Roedd y tywydd yn garedig iawn i bawb ac mae Cangen Gilfach yn edrych ymlaen yn barod at Barti Traeth y flwyddyn nesaf.

Cyflwyno Siec
Bu merched y dosbarth gwnïo Nos Fawrth wrthi yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf yn gweu cywion Pasg ac yn rhoi ŵy siocled ynddynt. O ganlyniad i'w hymdrechion cyflwynwyd siec am £824 i Ysbyty Felindre. Mae'r Merched am ddiolch i bawb a fu mor garedig â phrynu'r wyau ac i'w cyfeillion am eu parodrwydd i helpu gyda'r gwerthu. Llongyfarchiadau wir ferched.

Ysgol Heol y Celyn

Tîm Dawnsio Gwerin dan 10 oed buddugol

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarch y plant a'r athrawon sydd yn rhaid ei wneud mis yma am eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Ar ôl misoedd o ymarferion gwelwyd yr holl waith caled yn talu gan i'r ysgol lwyddo i gael cyntaf yn y gystadleuaeth dawnsio gwerin dan 10 oed ac yng nghystadleuaeth yr ymgom ail iaith. Cafwyd ail gyda'r gan actol ail iaith a thrydydd gyda'r parti unsain. Felly bu wythnos yr hanner tymor yn un prysur ond llewyrchus i nifer o'r plant a'r staff. Da iawn pawb am eich gwaith caled.

Arolwg
Nid dyna'r unig waith caled mae'r plant a'r athrawon wedi bod yn ei wneud chwaith, gan i'r ysgol gael eu harolygu ym mis Ebrill. Canmoladwy iawn oedd ymdrechion pawb gan i'r ysgol dderbyn adroddiad da a llwyddiannus iawn.

Arholiad Telyn
Llongyfarchiadau i Nicola Pope ar basio ei arholiad telyn Gradd 3 gydag anrhydedd. Mae Nicola yn ddisgybl yn Ysgol Llanhari ac yn gynddisgybl Ysgol Gymraeg Tonyrefail. Mae ei mamgu Mrs Megan Evans, Y Stryd Fawr, yn falch iawn ohoni. Da iawn Nicola, a dal ati.

Gwellhad Buan
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Joanna Richards organyddes Capel Calfaria sydd newydd gael triniaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Athrawon Newydd
Oherwydd yr holl brysurdeb ni chafwyd amser i groesawu athrawon newydd a ddechreuodd yn yr ysgol ychydig cyn yr arolwg, sef Gareth Owen sydd yn dysgu blwyddyn 4 a 5 a Pat Trainer sydd yn dysgu yn y dosbarth Anghenion Arbennig. Croeso mawr i'r ddau ohonynt a gobeithio y byddant yn hapus yn yr ysgol.

Chwaraeon
Cafodd yr ysgol lwyddiant gyda athletau hefyd gan i dîm y merched a'r bechgyn ddod yn gyntaf yn y rownd derfynol o'r `Sports Hall Athletics' a gafodd eu cynnal yn Aberdar ar y l4eg o Fawrth. Roedd timau'r ysgol yn erbyn tîmau o ysgolion Parc, Rhigos a Penyrenglyn a llwyddodd y merched a'r bechgyn i fod yn fuddugol a chawsant gwpan i'r ysgol a tharian yr un. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm ar eu llwyddiant.

Newyddion
Bu dosbarth 9E ar daith i ymweld â Eglwys St Francis yn Ely, ble bu y Tad James yn siarad â hwy am y ffydd Gatholig. Mae dawnswyr gwerin yr ysgol hefyd yn paratoi ar gyfer Dawnsio drwy'r Cwm sydd yn cael ei cynnal yng Nghastell Caerffili y mis yma. Mae côr a eitemau eraill hefyd yn paratoi ar gyfer Parti Ponty.

I ddathlu Dydd Ewyllys Da y flwyddyn yma cawsom wasanaeth arbennig ble bu i nifer yr athrawon ddarllen neges ewyllys da mewn gwahanol ieithoedd. Anfonodd yr ysgol 80 o gardiau Dydd Ewyllys Da i nifer o ysgolion o amgylch Cymru, ac yn ystod y gwasanaeth darllenwyd rhai o gardiau a oedd wedi eu derbyn gan ysgolion eraill.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

Pobl Enwog Lois.
Llongyfarchiadau mawr i Lois Hughes, Nant y Felin ar ennill y wobr gyntaf a'r ail yng nghystadleuaeth Gwaith Llaw dan 25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Disgybl yn Ysgol Uwchradd Glantaf yw Lois. Ei champ oedd creu model o berson enwog. A pha enwogion i chi'n feddwl wnaeth Lois ddewis? Neb llai na'r bythol wyrdd Tom Jones o Bontypridd a'r hoffus Neil Jenkins. A phwy gwell na Lois i greu model o Neil. Mae Lois a Neil yn ffrindiau mynwesol a Lois oedd un o'r morynion bach ym mhriodas Neil rai blynyddoedd yn ôl.
Llongyfarchiadau mawr i ti Lois.

Cerdded y Tri Chopa
Llongyfarchiadau i Celt Hughes hefyd, tad Lois am gyflawni tipyn o gamp yn cerdded yn Ras y Tri Chopa ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 22ain. Cododd gyda'r wawr gan ddechrau dringo'r Wyddfa yn fuan ar ôl pedwar o'r gloch y bore. Ymlaen wedyn i ddringo Cader Idris o gwmpas amser cinio a gorffen hwyr y prynhawn drwy ddringo Penyfan ar Fannau Brycheiniog. Roedd saith deg o dimau'n cystadlu a chodwyd arian sylweddol iawn (dros £70,000) i goffrau Tý Hafan. Tipyn o gamp!

Llongyfarchiadau.
Llongyfarchiadau i Ffion Eleri Rees, Heol Iscoed ar ei llwyddiant yn arholiadau Dawns I.D.T.A. Enillodd Lefel Arian am ddawnsio Disgo a Lefel Efydd am ddawnsio Lladin gyda chymeradwyaeth uchel. Mae Ffion hefyd wedi derbyn Gradd 1 yn ei harholiad Piano. Mrs Gaynor Legg, Meisgyn yw ei hathrawes Gerdd.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Liz West, Nant y Felin ar gwblhau Cwrs C.P.C.P. (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth) yn llwyddiannus. Yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd y bu Liz yn astudio ar gyfer y cymhwyster gan wneud astudiaethau manwl ar ddysgu ac addysgu, datblygiad o fewn ysgol, arwain a rheoli staff ac atebolrwydd. Rwy'n siwr y gall Liz ymlacio a mwynhau gwyliau'r Haf eleni gan fod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn rhai go brysur yn dysgu yn Ysgol Gyfun Rhydfelen gyda'r dydd ac yn astudio yn ei horiau hamdden.

Tom Jones a Neil Jenkins, pypedau buddugol Lois Hughes

Gwellhad Buan
Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Mr Ed Thomas, Heol y Ffynnon sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr Ysbyty Frenhinol yn Llantrisant yn ddiweddar. Da yw deall ei fod bellach wedi dod adref o'r ysbyty.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r Parchedig Eirian Rees a'r teulu sydd wedi colli aelod agos o'r teulu yn Nhycroes yn ddiweddar. Dioddefodd Mr Eirwyn Phillips ("brawd" Eirian) gystudd hir a chreulon a mawr fu gofal Ann ag Eirian amdano yn ei waeledd.

Menter yr Ifanc
Fe gofiwch ddarllen yn rhifyn Mis Mehefin am Rhydian West a Dylan Hughes y ddau "entrepreneur" o'r Efail Isaf. Mae'r ddau yn aelodau o Gwmni Abracadabra, Ysgol Gyfun Rhydfelen a oedd yn cystadlu yn rownd derfynol Menter yr Ifanc, Cymru. Er na wnaeth Abracadabra ddod i'r brig fe lwyddodd y cwmni ennill y wobr gyntaf am waith tîm. Llongyfarchiadau mawr i Gwmni Abracadabra.

Y Tabernacl.
Oedfaon Mis Gorffennaf a Mis Awst,
Gorffennaf 7fed Oedfa Gymun dan ofal Y Parchedig Eirian Rees,
Gorffennaf 14eg Y Parchedig W,J. Edwards.
Gorffennaf 21ain Y Parchedig Eirian Rees
Gorffennaf 28ain Addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth,
Awst 4ydd Oedfa Gymun dan ofal Y Parchedig Eirian Rees
Awst 11ed Addoli ym Methlehem Gwaelod y Garth.
Awst 18ed Mr John Price.
Awst 25ain Addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth,

Cofiwch edrych ar
www.tabernacl.com
am y diweddaraf o'r capel.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysylltwch â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

11 AELOD O STAFF CRAIDD AR DDECHRAU MIS MEDI

Am gyfnod ar ddechrau mis Medi bydd gan y Fenter Iaith 11 aelod o staff craidd yn gweithio dros yr iaith yn Rhondda Cynon Taf. Bydd gennym Ymchwilydd Economaidd, 2 Gydlynydd Gofal Plant, Cyfieithydd Cymunedol, Cydlynydd Ieuenctid, Swyddog Cymunedau Yn Gyntaf, Prifweithredwr a 4 rheolwr swyddfa neu weinyddwr i'n cynorthwyo. Bydd y staff hyn yn gweithio o swyddfeydd y Fenter yn Aberdâr, Treorci a Llantrisant a Swyddfa'r Urdd yn Aberdar. Ble bydd hyn i gyd yn dod i ben? Dwi ddim yn leicio meddwl mewn gwirionedd ond yn fy meddwl i y mae'r Fenter mwy neu lai wedi cyrraedd hanner ffordd yn y datblygiad yr hoffwn i weld yn y dyfodol agos.

Beth arall sydd ei eisiau? Wel, o safbwynt staff craidd y mae gwir angen Rheolwr Cyllid profiadol a Swyddog Grantiau neu godi arian. Mae angen Swyddogion Gwirfoddolwyr, Gwirfoddolwyr Ifanc a Hŷn. Mae angen i ni ddatblygu gwasanaethau gyda henoed y sir sydd mor sicr eu Cymraeg ond mor ynysig eu Cymreictod o fewn y systemau gwasanaethau henoed a gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen sawl swyddog ieuenctid – i'r Fenter heb sôn am rannu un rhyngddom ni a'r Urdd. Mae angen Swyddog Gyrfaoedd, Trefnyddion adloniant, Swyddogion Marchnata a Swyddogion Dysgwyr llawn amser. Mae angen Swyddogion Hyfforddiant, Swyddog Twristiaeth, Swyddogion Maes a Swyddogion Datblygu.

PWYSIGRWYDD CANOLFANNAU CYMRAEG

Daw amser hefyd i'r Fenter edrych eto ar y posibiliadau o sefydlu cyfres o ganolfannau galw i mewn, Caffis Cymraeg, neu Tafarnau fel Clwb y Bont sy'n gwneud gwaith mor bwysig ym Mhontypridd. Mae angen meithrinfeydd gofal dydd i blant dan 5 oed – a fydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn gyfrwng i ymateb i alwadau ein bywydau modern prysur? Mae angen i ni gael Canolfan Celfyddydau Cymraeg gyda Sinema Fach yn dangos ffilmiau ar sgrîn fawr. Mae Siop y Bont yn datblygu yn gyflym – gwych oedd gweld eu stondin yn Eisteddfod yr Urdd – ond mae angen siopau felly yn agos at y bobl – beth am Treorci? Aberdar? neu Tonysguboriau? Ble mae ein entrepreneurs Cymraeg?

PWYSIGRWYDD Y CYFRYNGAU CYMRAEG

Mae'r papurau bro yn gwneud gwaith gwych gan roi cyfle i bobl ysgrifennu a darllen Cymraeg – rhywbeth na fyddem yn gwneud o gwbl efallai hebddyn nhw – ond beth am yr ardaloedd lle nad oes papur ar gael ar hyn o bryd? Beth am y plant a'r bobl ifanc? A fydd modd datblygu CICIO yn gylchgrawn rheolaidd? A beth am y radio? Mae GTFM wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi ymdrechu i gynnwys y Gymraeg ond roeddwn i'n meddwl bod siaradwyr Cymraeg i fod i fyw a bod gyda'r cyfryngau cyfoes – lle mae ein radio bro Gymraeg? Ar lefel genedlaethol pam nad oes radio masnachol Gymraeg? A Radio Cymru Un a Dau? A'r teledu wedyn S4C Un a Dau, chwarae teg, ond ble mae Sianel Steddfodau Cymru?, Sianel Dysgwyr y Gymraeg? Sianel Gerddoriaeth?

Mae modd mentro – mae modd newid pethau – mae modd sicrhau dyfodol disglair i'r Gymraeg – dydy hi ddim mor anodd â hynny.

PARTI PONTY

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cynorthwyo unwaith eto eleni. Holl staff y Fenter a'r Urdd a

Gwion Rees
Swyddog Cymunedau'n Gyntaf

Mudiad Meithrin. Staff y llu o ysgolion Cymraeg sy'n cymryd rhan fel arfer. Diolch arbennig i Afryl Davies sy'n gwneud gwyrthiau bob blwyddyn i drefnu Côr Parti Ponty. Diolch arbennig hefyd i staff yr ysgolion Saesneg sy'n gwneud pwynt o baratoi eu disgyblion at berfformiadau llwyfan. Diolch i'r perfformwyr i gyd. Diolch i'r stondinwyr sy'n dod i gefnogi. Diolch arbennig iawn i Rob Jones Y Cymro a frwydrodd yn galed i sicrhau bod atodiad arbennig yn cael ei gyhoeddi gan weithio yn erbyn y cloc ac yn erbyn yr ods i gyd i gael yr atodiad yn barod mewn pryd. I'r rhai a wnaeth ddarparu deunydd gyda 'mond awr o rybudd – diolch yn fawr iawn iawn! Diolch i S4C – y prif bartner bach sydd weithiau yn cael eu hesgeuluso – ac ydw mi ydw i yn ffan o S4C Digidol! Yn bennaf oll wrth gwrs diolch i Aled Glynne Davies am godi ein gŵyl flynyddol yn ŵyl o bwys yn y calendr Cymraeg. Hebddo fe a'r staff gweithgar sydd ganddo yn BBC Radio Cymru ni fyddai 'na Barti Ponty o gwbl. Os ydych chi wedi mwynhau'r parti cofiwch i diwnio i mewn i 96.5 FM neu ar Deledu Lloeren neu ar y We Fyd Eang y mae modd i'r parti barhau gyda Radio Cymru trwy'r flwyddyn trwy'r byd lle bynnag yr ydych chi.

CYNLLUNIAU CHWARAE'R HAF AR AGOR AR 6 SAFLE UNWAITH ETO

Ydyn – rydym yn mynd i lwyddo i gynnig dewis o gynlluniau chwarae i'r plant dan 12 oed yn Rhydfelen, Abercynon, Y Cymer, Llanhari, Bronllwyn a Llynyforwyn. Am lai na £10 y diwrnod o hyd y mae'ch plant yn gallu mwynhau chwaraeon, nofio, castell neidio, peintio gwynebau, celf a chrefft, gemau bwrdd, teledu a fideo, ymweliadau gan arbenigwyr chwaraeon a diddanwyr eraill.

Oes nad ydych wedi derbyn eich ffurflen trwy'r post ffoniwch 01443 226386 – fe gewch drefnu lle i'ch plant dros y ffôn a thalu gyda cherdyn credyd – dim ond diwrnod o rybudd sydd angen arnom os oes llefydd ar gael ond cofiwch taw'r cyntaf i'r felin caiff….felly os ydych am sicrhau lle gwnewch hynny ar unwaith.

CIC YN CICIO TRWY'R HAF

Y mae dewis o weithgareddau ar gael hefyd gan gynnwys Paint Balling, Cwrs Perfformio a Thripiau i bob man gyda Dawn Williams, staff yr Urdd a Chriw Cic. Os ydych chi yn yr ysgol uwchradd ac yn chwilio am rywbeth i'w wneud gyda'ch ffrindiau yn ystod 6 wythnos hir o wyliau rhowch alwad i Dawn ar 01685 882299 – Canolfan Yr Urdd Aberdar.

CWRS BUSNES YN GORFFEN AC UN ARALL AR Y GWEILL GYDA GWASANAETHAU NEWYDD

Bu cwrs busnes y Fenter yn llwyddiant mawr unwaith eto gyda 10 o bobl yn dilyn y gwersi ar Ystad Trefforest Pontypridd. Bydd cwrs newydd ym mis Hydref i bobl ifanc, neu bobl sy'n ystyried dechrau rhyw weithgaredd busnes am y tro cyntaf. Os oes gyda chi syniad busnes yr hoffech chi gael cyngor ynglyn â'i ddatblygu rhowch alwad i Julie Williams ar 01685 877183. Ac os ydych chi'n swil neu os ydych chi am gadw eich syniad busnes yn hollol gyfrinachol y mae'n bosibl y bydd modd i ni drefnu i arbenigwyr ddod atoch chi i'ch cynorthwyo yn y man busnes neu yn eich cartref. Cymorth Busnes Cymraeg Direct hyd y gwelaf i – mae'n swnio yn addawol iawn

Julie Williams
Swyddog Datblygu'r Economi

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD YN ÔL YM MIS MEDI

Ar ôl cyflwyniad ysgafn i waith Parc Gwledig Cwm Dar – a thaith hynod o wirion mewn Landrover 4X4- yn ystod mis Gorffennaf bydd y cwlwm busnes gweithgar yma yn cael cyfle i ymlacio ac ystyried pa siaradwyr difyr gawn ni at yr Hydref. Hyd yma y mae wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda chyfres o siaradwyr gwych yn diddanu hyd at 30 o bobl busnes Cymraeg y cymoedd

CYFIEITHU CYMUNEDOL

Mae'r gwasanaeth yn llwyddiant ysgubol arall i Fentrau Morgannwg Gwent ffoniwch Gwynallt Bowen am wybodaeth 01685 882299.

CYMUNEDAU YN GYNTAF

Mae'r cymunedau Cymraeg ar y blaen yn Rhondda Cynon Taf ac yn arwain y ffordd i Gymru gyfan. Gallwch gysylltu â Gwion Rees yn ein swyddfa newydd yn Nhreorci i gael cymorth i ddatblygu eich cymdeithas chi—01443 440920.

GRANTIAU I DDYSGWYR Y GYMRAEG

Mae Banc yr HSBC yn ein cefnogi unwaith eto eleni felly os ydych chi'n nabod rhywun sydd eisiau grant i helpu gyda'r gost o ddysgu Cymraeg ffoniwch 01443 226386 am ffurflen.

GWEFANNAU CYMRAEG

Mae'r gwybodaeth diweddaraf llawn negeseuon, fideos, swn a lluniau a lincs i safleoedd eraill ar gael ar www.menteriaith.org – mae'n werth ei weld.

Steffan Webb
Prifweithredwr
Menter Iaith

Jonathan Jones, Prif Weithredwr Bwrdd Croeso Cymru, gyda Alun Cox yng Nghwlwm Busnes Mehefin

Agoriad Tŷ Catrin

Adroddiad gan Rebecca Phillips, Jade Hobby, Sara Monks a Carys Davies

Roedd Chwefror y 6ed 2002 yn ddiwrnod arbennig iawn i gôr yr ysgol. Cawsom ein gwahodd i ganu yn agoriad swyddogol adeilad newydd Tŷ Catrin. Tipyn o anrhydedd yn wir i ni oedd cael gwneud hyn oherwydd roedd llawer o bobl bwysig y fro yno gan gynnwys llawer o gynghorwyr a'r awdures enwog Catrin Collier.

Canolfan addysgol newydd sbon yw Tŷ Catrin lle gall pobl o bob oed fynd i barhau gyda'u haddysg ar ôl gadael ysgol. Mae'n le sy'n dysgu Cymraeg i oedolion a hefyd mae'n le i fyfyrwyr gydag anawsterau dysgu i gael mynd.

Gwnaeth y côr ganu 'Gwyliau yn y Caribi' a 'Gerfydd Fy nwylo Gwyn' yn yr agoriad ac roedd pawb o'r farn ein bod ni wedi canu'n wych. Profiad newydd i ni oedd cael canu tu fas yn yr awyr agored. Cafodd y Ganolfan ei henwi ar ôl yr awdures Catrin Collier oherwydd ei bod yn enedigol o Bontypridd ac yn nabod yr ardal yn dda. Ar ôl i ni ganu, aethon ni mewn i'r ganolfan i weld y lle ac i gael pop a chreision (Mmmmm blasus iawn!!). Roedd yr ysgol yn lwcus iawn oherwydd rhoddodd Catrin Collier lyfrau newydd yn rhodd i'r ysgol.

Ysgrifennodd Carys Davies lythyr ar ran y côr i ddiolch iddi am y llyfrau. Dyma rhan o'i hateb – " Gofynnoch chi un cwestiwn enfawr i mi, sut beth yw bod yn awdures? Mewn un ffordd mae fel cael dod â phob breuddwyd yn fyw, oherwydd gallaf weithio o gartref a gweu straeon yn union fel yr oeddwn yn gwneud pan yn ddisgybl yn Ysgol gynradd Maesycoed a chael fy nghosbi am wneud hynny yn fy ngwersi mathemateg a Saesneg."







Dosbarth 4

Ysgol Evan James

YSGOL • GYNRADD • GYMRAEG

EVAN JAMES

O Bydded i'r Heniaith Barhau

DIWRNOD Y LLYFR 2002

Yn ddiweddar cyflwynodd yr ysgol siec am £700 i Ian Botham oedd ar daith gerdded trwy Gymru i godi arian tuag at Apêl Arch Noa. Yn y llun mae Sophie Ashman, Sophie Roberts, Mererid Collins a Mr Jones, y prifathro gyda Ian Botham.

Fy hoff lyfr yw Y Celtiaid Cythryblus. Terry Deary yw enw'r awdur. Yn y llyfr mae jôc. Y jôc yw "Roedd y Celtiaid yn byw yn oes yr haearn. Beth yw oes yr haearn Nia?" meddai yr athrawes. "Nos Sul pan fydd Mam yn smwddio Miss" meddai Nia. Mwynheais ddarllen y llyfr achos rydych yn dysgu llawer o ffeithiau diddorol a digri.

Carwyn Geraint Rees

Fy hoff lyfr yw Penblwydd Ianto. Yn y stori mae Ianto y bachgen yn cael parti annisgwyl. Mwynheais i ddarllen y llyfr yma achos roedd e'n ddoniol iawn.

Bethan James

Dosbarth 15
EIN CERDDI 'OFN'

Ofn

Crynaf fel deilen
Wrth weld pry cop yn y bath.
Y coesau trwchus du yn crwydro.
Yn nes ac yn nes.
Ei gorffyn yn grwn ac yn flewog,
Symuda gan bwyll bach.
Sgrechiaf.

Rhed ias oer lawr fy nghefn.
Teimlaf fel crio gan ofn.
Daw mam i'r ystafell ymolchi.
Gwelwodd ei hwyneb wrth weld
Yr anghenfil anferth, annymunol yn angori
wrth y tap.

Trodd mam y tap ymlaen
A diflannodd y bwgan am byth.
Diflannodd fy ofnau i hefyd lawr y plwg!

Carys Davies

OFN

Rwy'n cyrraedd yr ysgol yn crynu,
Wrth feddwl amdanyn nhw.
YR ATHRAWON.
Fel pry cop yn fy ngwylio i bob amser.
Mae nhw'n sleifio'n gyfrwys o amgylch y byrddau.
Pan yn sydyn
Rwy'n gaeth yn y we.
Nawr fi yw ysglyfaeth fy athrawes!

Rhed y chwys oer lawr fy nhalcen.
Rydw'i wedi fy mharlysu gan ofn.
Mae'r pry cop yn plygu drosodd
Gwelaf ei dannedd miniog yn ymddangos.
A rhyw wen fach fileinig ar ei hwyneb.
Rwyf wedi anghofio fy ngwaith cartref.

Ding a ling.
Cana cloch yr ysgol.
Hwre mae'n amser mynd adref.
Rhedaf at y drws.
Yna troi a gweld llygaid maleisus yn rhythu.

Yna ochenaid o ryddhad o gael dianc
Dianc o grafangau'r corryn cas.

Abbie O'Brien

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Arholiadau
Pob dymuniad da i holl blant y pentre sy'n sefyll arholiadau diwedd tymor, TGAU,Uwch Gyfrannol(AS) a Lefel A.Byddwch yn medru mwynhau'r haf ymhen dim.

Llongyfarchiadau .....

i Ifan Glyn, Pen y Waun a Cerian Hughes, Maes y Sarn ar basio eu prawf gyrru yn ddiweddar.Mae Heulwen wedi colli'r hen gar coch - mae peryg iddi golli'r car du hefyd nawr!

i Glyn Parry Jones, Bronhaul a Suzanne ar eu priodas. Pob dymuniad da i chi a Catrin a Cai.

i Catrin Heledd a gafodd gyntaf yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus ac ail ar Lefaru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd. Mae gan Catrin gyfle yn awr i gystadlu am Wobr Bryn Terfel ym Mhenarth ddiwedd Mehefin. Llongyfarchiadau mwyaf i ti, a phob lwc yn y gystadleuaeth.

i Trish Thomas, Pen y Waun, sydd newydd ymddeol o'i swydd gyda CBAC.Rwy'n clywed bod Don wedi ymddeol hefyd ers Mis Tachwedd. Ymddeoliad hapus i chi'ch dau.

i Gareth a Morfudd Huws sydd yn ddiweddar wedi cymeryd gofal o'r 'Lodge' yn Ngerddi Soffia.Does 'na ddim ymddeol i fod i rai!

i Rhodri Gwyn Jones, Maes y Sarn sydd wedi cael swydd nes adre, wedi iddo fod yn teithio i'r Gorllewin am rhyw ddeuddeg mlynedd.Mae Rhodri newydd gael swydd fel Cyfarwyddwr Priffyrdd Cyngor Sir Penybont, ac mi fydd yn gweithio o'i swyddfa ym Mhenybont.Tipyn gwell, rwy'n siwr!

i Hywel Roberts, Tŷ Cnau, ar ennill gradd 2/1 yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin

i Aled Phillips wnaeth gwblhau Ras Tri Chopa, ddiwedd Mai, er mwyn codi arian i Action Aid. Roedd Aled yn rhan o dim o saith o beiriannwyr sifil ARUP,wnaeth rhedeg i fyny Ben Nevis, Scarfell Pyke a'r Wyddfa o fewn pedwar awr ar hugain!Ni bu'r tywydd yn ffafriol chwaith, a chafwyd tywydd annifyr wrth fentro i fyny Scarfell Pyke am dri o'r gloch y bore,tra'n gorfod dibynnu ar olau fflach o 'u hetiau i weld y llwybrau i'w rhedeg.Nid oedd damaid waeth am y profiad -" wedi blino braidd" oed yr unig gwyn! Llongyfarchiadau.

Clwb y Dwrlyn
Cynhaliwyd yr Helfa Drysor flynyddol yn ddiweddar, a gwelwyd llu ohonom yn gadael Pentyrch ac yn mentro ar hyd lonydd cul Y Fro.Daethpwyd ar hyd pentrefi bychain na bu llawer ohonom ar eu traws o'r blaen, cyn diweddu mewn tafarn ym Mhenmarc.Cawsom fwyd, diodydd a sgwrsio, cyn i Wyn a Gill gyhoeddi'r enillwyr. Car Rowland a Marian Wynne a Don a Trish Thomas bu'n fuddugol, ac yn ffodus iddyn nhw, cafwyd newid ar yr rheolau. Yn hytrach na gorfod trefnu'r Helfa y flwyddyn nesa', roeddent yn cael dewis enw o'r het i weld (o'r rheiny ddaeth yn ail,trydydd neu bedwerydd) pwy ohonynt fyddai'n gorfod trefnu. Yr enwau lwcus!!!!! o'r het oedd car Dewi a Heulwen Hughes ac Ann Jones. Cofiwch chi, bydd Rhodri, gwr Ann (Cyfarwyddwr Priffyrdd uchod) yn medru bod o fudd iddyn nhw y flwyddyn nesa' - mi fydd yn adnabod yr hewlydd yn digon da yn yr ardal, erbyn hynny!! Mawr yw ein diolch i Gill a Wyn am drefnu taith mor ddiddorol a phleserus.

Wrth i flwyddyn Rowland Wynne fel Cadeirydd ddod i ben, dymunwn yn dda i Carol Williams wrth iddi gymeryd at yr awenau. Edrychwn ymlaen at flwyddyn o weithgareddau amrywiol a hwyliog y flwyddyn nesaf.

Catrin Heledd yn cymeryd rhan yn Ysgoloriaeth Bryn Terfel Eisteddfod yr Urdd

Mynd i Seland Newydd
Wedi gweithio fel nani am saith mlynedd ym Mhentyrch, mae Leanne Board yn mynd i deithio i Seland Newydd. Ei gobaith yw i fyw a gweithio yno am ychydig o amser.Mi fydd Aled, Huw a Gwilym yn gweld ei cholled yn fawr, yn ogystal a Liz a John sydd wedi gwerthfawrogi ei gwaith dros y blynyddoedd.

Oherwydd hyn, maent yn edrych am rhywun i warchod y plant ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Os wyddoch chi am unrhyw un sydd â diddordeb, beth am gysylltu â'r teulu ar 029 20891410.

Taith Gerdded Merched y Wawr
Ar nos Fercher, 12ed Mehefin, daeth nifer dda o'r gangen ynghyd i ddilyn Jen MacDonald ar hyd Ffordd y Bryniau i Graig yr Allt. Trwy lwc, fe gadwodd y glaw draw, ac ar ôl dringo llwybr serth, braf oedd cyrraedd y copa, a mwynhau golygfeydd o Gaerffili a Chwm Taf.

Roedd y daith i lawr yn fwy hamddenol, ac roedd pawb yn falch o'r cyfle i dorri syched a pharhau â'r sgwrsio yn y Tŷ Nant. Diolch i Jen am drefnu'r daith—diweddglo hyfryd i flwyddyn lwyddiannus o dan lywyddiaeth Nia Williams. Pob hwyl i Eirlys Davies a'r pwyllgor newydd wrth iddynt baratoi rhaglen ddifyr ar gyfer y flwyddyn nesa'.

cic

Mae'r Haf ar ei ffordd! Amser i CICIO! Mae nifer o weithgareddau ar gael i ieuenctid RHCT yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae cwrs perfformio, cwrs dylunio gwefan, trip i Drayton Manor, Heatherton, Paintballing, Lazer Zone, dringo, a Quad Biking. Gwnewch yn siwr rydych yn edrych ar wefan cicio i weld yr holl fanylion ac edrychwch allan am yr wybodaeth yn eich ysgolion.

Clybiau CIC

Yn ddiweddar fe aeth Clwb Caffi Syber ym Mhontypridd i ddringo. Mae'r clwb yn cwrdd bob nos Iau 7 - 9pm ac ar hyn o bryd yn paratoi eu heitemau ar gyfer perfformio ar lwyfan Menter Iaith ym Mharti Ponty!

Mae'r Rascals ar hyn o bryd yn frwd iawn yn ymarfer ar gyfer eu perfformiad o Barti Ddu felly edrychwch allan amdanyn nhw - byddan nhw'n ymddangos ym Mharti Ponty hefyd!

Popio

Ydych chi wedi ymgeisio am gystadleuaeth popio? Rydyn ni'n dal i edrych am dalent newydd yn ardal RHCT felly os nad ydych chi wedi cael y cyfle i weld ein beirniaid cysylltwch â CIC nawr!

Mae nifer o gyfleoedd am swyddi felly os ydych dros 18 cysylltwch nawr! Am unrhyw wybodaeth cysylltwch â Dawn ar 01685 882299 neu ebostio cic@cicio.net.

Hwyl yng Nghanolfan Ddringo Cenedlaethol Cymru

Ffansîn 16 tudalen lliwgar criw CiC a gyhoeddwyd ddechrau mis Mehefin.



HANESION SY'N GOSOD HER

Fe fydd cyfres newydd ar S4C yn rhoi gogwydd hollol newydd ar hanes rhai o'n chwedlau, ein pobl a'n hardaloedd enwocaf. Yn ystod y chwe wythnos nesaf, fe fydd y newyddiadurwr a'r cyflwynydd GUTO HARRI yn Herio Hanes mewn chwe rhaglen ddogfen arbennig.

Faint o Gymry sy'n ymwybodol mai gwaelod cwm yw'r Wyddfa, a'i bod yn bosibl mai un o Lwythau Coll Israel yw'r Cymry? Faint sy'n gwybod bod yna resymau daearyddol pam y tyfodd meddyginiaethau Meddygon Myddfai mor enwog yn Sir Gaerfyrddin? Faint o bobl sydd yn ymwybodol fod pobl ar un adeg wedi byw dan fôr Bae Ceredigion ac mae hynny sy'n rhoi sail i chwedl Cantre'r Gwaelod? A faint sydd yn gwybod mai dyn cyfrwys, hunanol oedd y bardd Iolo Morgannwg?

Bydd y gyfres newydd Herio Hanes, a ddarlledir bob nos Wener ar S4C (8.30pm), yn rhoi sail wyddonol i gynnal pob un o'r honiadau uchod, ac yn ein gorfodi i ail ystyried rhai o hanesion enwoca'n gwlad. Rydyn ni ar fin datgelu cyfrinachau'n cenedl sydd wedi bod yn gudd am ganrifoedd.

HERIO HANES
S4C, Nos Wener, 8.30pm

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Urdd ~ Gwaith ar Dâp Sain

Unwaith yn rhagor eleni, y mae disgyblion Blwyddyn 10 Astudiaethau'r Cyfryngau wedi ennill y gystadleuaeth uchod. Y dasg oedd creu gwaith ar dâp o dan y teitl 'Mynd i'r Coleg'. Fe aethant ati i greu rhaglen radio a oedd yn trafod colegau; rhoddwyd cyfweliad i rywun oedd ar fin mynd i'r coleg, ac hefyd fe wnaethant greu hysbysebion i ddenu myfyrwyr i golegau arbennig. Fe wnaethant hyd yn oed sôn am rinweddau gwahanol golegau ar ffurf bwletin newyddion!

Cafwyd llawer o hwyl wrth greu'r rhaglen a'i recordio draw yn stiwdio GTFM.

RADIO

Mae llawer o gyffro wedi bod yn ardal Pontypridd yn ddiweddar gyda gorsaf radio GTFM yn cael ei lansio ar stepen ein drws. Bob blwyddyn, mae disgyblion Astudiaethau'r Cyfryngau yn cael y cyfle i gynhyrchu a chyflwyno rhaglen awr eu hunain. Mae eleni hyd yn oed yn fwy cyffrous gan fod GTFM wedi ennill trwydded nid dim ond am un mis fel yn y gorffennol, ond am flwyddyn gyfan. Mae nifer o ddisgyblion Bl.10 â diddordeb i greu eu rhaglenni nhw eu hunain a chafodd y disgyblion canlynol eu cyfweld gan S4C ar 'Wedi Chwech' a gan Newyddion HTV a Newyddion y BBC hefyd: Emma Jones, Kayleigh Cowles, Sam Thomas ac Alun Roberts.

Dau ddisgybl arall sydd hefyd â diddordeb mewn rhedeg eu sioe eu hunain yw Ceris Griffiths a Cari-Leigh Bailyes (Bl.8). Mae Ceris yn brofiadol iawn yn y maes gan ei bod wedi cynhyrchu a chyflwyno sioe ei hunan ar GTFM ers iddi fod yn 9 mlwydd oed.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2002

Parti llefaru 12 – 15 oed Ail
Llefaru unigol 12 – 15 oed Berwyn Pearce Trydydd
Parti llefaru 15 – 19 oed Cyntaf

Côr Bechgyn Buddugol

Parti Llefaru Buddugol



Berwyn Pearce

Sophie Jones

Côr meibion 15 – 19 oed Cyntaf
Côr cerdd dant 15 – 19 oed Ail
Unawd merched 15 – 19 oed Sophie Jones Trydydd
Unawd llinynnol 15 – 19 oed Ciaran Jenkins Trydydd
Deuawd piano 15 – 19 oed Osian Jones a Betsan Pearce Trydydd
Llunio rhaglen radio 15m Grwp Ast. Cyf. Bl.10 Cyntaf

Llongyfyrchiadau i'r uchod a phawb fu'n cystadlu
Llongyfyrchiadau a diolch hefyd i bawb fu'n hyfforddi

Cefnogwyr Rhydfelen

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees a Delyth Jones

Ysgol Pont Siôn Norton

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
Llongyfarchiadau i bawb o'r ysgol a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Rhaid llongyfarch yn arbennig y Côr Adran dan 12 oed a ddaeth yn ail ar lwyfan yr Eisteddfod dan arweinyddiaeth Mrs Dorothy Todd a Mrs Caryl Williams yn cyfeilio. Diolch i'r plant ac i Dorothy a Caryl am eu hymroddiad i'r ysgol dros y blynyddoedd.

Cyngerdd Haf
Cynhaliwyd cyngerdd haf yr ysgol yn y Miwni, nos Fercher Mehefin 26ain. Cafwyd amrywiaeth o eitemau ac roedd y lle dan i sang o bobl yn mwynhau yr adloniant.

Ymddeoliad
Dymuniadau gorau i Mrs Gina Miles sy'n ymddeol mis Gorffennaf o'i swydd fel athrawes yn yr ysgol. Mae Gina wedi bod yn dysgu yn yr ysgol ers blynyddoedd ac fe fydd y plant a'r athrawon yn gweld ei heisiau.

Ffair Haf
Cynhaliwyd Ffair Haf a Barbeciw'r ysgol ar Fehefin 14eg. Er bod y tywydd wedi amharu ar rai gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y tu allan, cafwyd noson lwyddiannus iawn yn neuadd yr ysgol. Diolch i'r Gymdeithas Rieni/ Athrawon a fu mor weithgar fel arfer.

Tripiau ac Ymweliadau Addysgol
Dosbarthiadau Meithrin/Derbyn - Parc Aberdâr
Dosbarthiadau Blwyddyn 1 a 2 - Newton a Phorthcawl
Dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 4 - Stadiwm y Mileniwm a'r Amgueddfa Genedlaethol
Dosbarthiadau Blwyddyn 5 a 6 - Parc Oakwood

Côr Adran Ysgol Pont Siôn Norton

Ysgol Evan James

Chwaraeon y Ddraig
Cynhelir sesiynau athletau i Flwyddyn 6 bob wythnos am gyfnod yn yr ysgol.Bydd y plant yn dysgu sgiliau newydd o dan ofal athrawon, cydlynydd Chwaraeon y Ddraig a phlant 6ed dosbarth Rhydfelen sef Emma O'Brian, Rhian Jenkins a Jenna Rolls .

Aeth tîm cryf i gynrychioli'r ysgol yn y gala nofio i ysgolion lleol ar 26ain Mehefin..

Aeth nifer sylweddol o'r Adran Iau i gystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd yng Nghaeau'r Brifysgol mis diwethaf.

Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol mewn Twrnament i ysgolion lleol yn Ysgol Coed y Lan.

Roedd Mr Ioan Thomas wrth ei fodd yn mynd â'i garfan griced i Erddi Soffia i wylio Morgannwg yn chwarae Middlesex.

Fe ddaeth cyfnod y tripiau a phob dosbarth yn edrych ymlaen i ddianc o' r ysgol am ddiwrnod.

Bydd Dos.3 a 4 yn ymweld â Fferm gymunedol Greenmeadow, Cwmbran.

Dos 5 a 6 yn mynd am dro i barc Barry Sidings am bicnic.

Dos 7 ac 8 yn mentro i Abertawe i astudio glan y môr (a phadlo yn y dwr efallai!!)

Dos. 9 a10 yn teithio i Borthcawl i astudio'r ardal.

Twrnamaint Pêl-rwyd
Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu mewn twrnamaint yn ddiweddar. Dyma'r canlyniadau :
Pont Siôn Norton 5 Coedpenmaen 3
Pont Siôn Norton 4 Trehopcyn 2
Pont Siôn Norton 2 Cilfynydd 2
Daliwch ati ferched!

Dos 13, 14 a15 yn ymweld â Sain Ffagan.

Daeth Cwmni teledu Fflic i ffilmio 8 o blant Dos.14/15 ar gyfer rhaglen newydd sbon a fydd yn ymddangos ar S4C yn yr Hydref.

Roedd edrych ymlaen yn fawr at Barti Ponty gyda un côr o'r ysgol yn perfformio eitem eu hunain dan arweinyddiaeth Miss Sian Elin Jones, tra bo criw arall yn ymuno â chôr mawr y parti am y tro cyntaf.

Bydd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn cyflwyno eu cyngherddau tymhorol o flaen eu teuluoedd yn ystod wythnos ola'r tymor.

Cafwyd BBQ llwyddiannus yn y Clwb Rygbi nos Wener, Mehefin 28ain wedi drefnu gan y Gymdeithas Rieni/Athrawon.

Cynhelir Mabolgampau'r ysgol ar Orff.12fed ar Gaeau'r Brifysgol, Trefforest.

Cafodd Dosbarthiadau 5, 6, 7 ac 8 gyfle i gwrdd a chyffwrdd â chreaduriaid o Fferm y Ffrindiau Bach, Trehafod.Ymwelodd scorpion, peithon, malwod anferth yr Affrig,llygoden fawr a nadroedd filtroed enfawr â'r ysgol gan achosi cryn gynnwrf!!

Ffarwel a diolch i .....
Andrew Johnson, Helen Jones, Elin Llywelyn, Pedr McMullen a Judith Poulson am eu gwaith cyflenwi yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf. Pob hwyl hefyd i Rhiannon Kennard a Rhian Ratcliffe sy'n dechre ar gyfnod mamolaeth.

Hefyd bydd yr ysgol yn ffarwelio â Jayne Rees, y ddirprwy-brifathrwes ac un o athrawon cyntaf yr ysgol, ar ddiwedd y tymor. Dymunwn pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

YSGOL CREIGIAU

Ras Hwyl y Pentref
Ar y 22ain o Fehefin rhedodd llawer o blant ac oedolion 'Ras hwyl y pentref' ar y maes hamdden. Cafodd medalau eu cyflwyno i enillwyr pob categori. Mae'r arian noddi yn cael ei rannu rhwng yr ysgol ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Roedd bwyd a diod ar werth i bawb oedd yno. Diolch i'r trefnwyr ac i bawb gymerodd ran.

Diwrnod o Wersi ym Mhlasmawr
Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod o wersi yn Ysgol gyfun Plasmawr. Cymraeg, Mathemateg a Thechnoleg oedd ein pynciau ni. Fe gwrddon ni hen ffrindiau, a gwneud rhai newydd. Roedd yr athrawon yn garedig iawn wrthym ni.

Y Ffair Haf
Yn y ffair haf roedd llawer o bethau i wneud er gwaethaf y tywydd. Roedd y ffair ar ddydd Sadwrn 15ed Mehefin. Cododd Cyfeillion yr Ysgol £1300 i'r ysgol. Diolch iddyn nhw a phawb a fu'n trefnu neu yn helpu. Roedd pawb wedi mwynhau yno. Y sleid sbonciog oedd yr atyniad mwyaf poblogaidd, hefyd roedd y clown yn y neuadd yn ddoniol iawn.

Mabolgampau
Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ddydd Mercher, Mehefin 26ain. Buom ni'n ffodus i gael tywydd braf a chafodd pob plentyn lolipop am ddim, diolch i Gyfeillion yr ysgol. Cyflwynwyd y darian i gapteiniaid y tîm buddugol sef Gwrgant (coch) gan Mr Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr. Iestyn (glas) ddaeth yn ail, Collwyn (melyn) yn drydydd ac Einion (gwyrdd) yn olaf. Diolch i Mr Brian Evans am yr holl drefniadau. Campus fel arfer. Diolch hefyd i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r bwyd a'r diod. Prynhawn gwych.

Pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ennill cwpan y gynghrair. Chwaraeon ni sawl gêm ac ennill pob un. Mae'r ysgol yn falch iawn ohonynt ac mae'r merched yn edrych ymlaen at gael derbyn y cwpan mis Gorffennaf.

Beth Williams, Ysgol Creigiau ddaeth yn drydydd am brintio.

Geraint Herbert, Ysgol Creigiau, ddaeth yn Gyntaf yn y Gystadleuaeth Ffotograffiaeth

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Croeso i'r Creigiau
A hwythau newydd ddychwelyd o'u mis mêl - mae'n bleser llongyfarch Dafydd Roberts a Lowri Bevan (gynt!) ar eu priodas a hefyd eu croesawu yn gynnes i bentref Creigiau. Mab Glenys a Guto Roberts yw Dafydd ac mae Lowri yn ferch i Mr a Mrs Alun Wyn Bevan, Castell Nedd. Bydd llais Lowri yn gyfarwydd i wrandawyr Radio Cymru. Mae hi'n ddarlledwraig ac yn newyddiadurwraig. Ym Mhort Talbot i gwmni dur Corus mae Dafydd yn gweithio, fel 'systems technologist'. Dafydd yn unig all egluro beth yn union yw ystyr hynny! Pob hapusrwydd i chi eich dau yn eich cartref newydd yn Llys Caradog.

Hel Atgofion
Daeth Mr Jones, tadcu Alisha, i ddosbarthiadau 4 a 5 i rannu ei atgofion am bentref Creigiau. Roedd e'n ddifyr iawn ac mi wnaethon ddarganfod llawer am y pentref a'r nifer o newidiadau sydd wedi digwydd yn natblygiad y pentref. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo.

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i bawb o'r ysgol a gymerodd ran yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro.

Sialens newydd
Llongyfarchiadau mawr i Lynfa Thomas, Dryslwyn, Maes y Nant ar ei dyrchafu i swydd Athrawes Arbenigol y Blynyddoedd Cynnar, Adran Ymgynghorol Sir Caerdydd. Golyga hyn y bydd Lynfa yn gyfrifol am gynnig cymorth, hyfforddiant a chynhaliaeth i athrawon a phlant sefydliadau a chylchoedd meithrin Caerdydd. Bydd y swydd yn rhan amser i gychwyn gan y bydd Lynfa yn parhau i ddysgu yn ysgol Gynradd y Berllan Deg am 0.5 o'r wythnos. Pob llwyddiant i ti yn dy sialens newydd!

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Nia Clements a'r teulu, yn Tan Dderi, Maes yr Hafod. Bu farw tad Nia yn ddiweddar. Brodor o'r Pwll ger Llanelli oedd Jack Evans, ei thad.

Geni
Croeso Hafwen! Cafodd Hafwen ei geni yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd yn ferch i Rhys a Judy, ac yn wyres gyntaf i John a Linda Davies, Bwthyn Dwrlyn, Capel Llanilllteyrn. Llongyfarchiadau i chi i gyd a phob bendith i Hafwen.

Y Cynulliad
Dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Delme Bowen sydd wedi ei ddewis yn Ymgeisydd Plaid Cymru Etholaeth Pontypridd yn Etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf.

YDY ALCOHOL YN COSTIO MWY NAC ARIAN I TI?

I'r rhan fwyaf o bobl mae cael cwpwl o beints gyda chyfeillion, neu yfed gwin gyda phryd o fwyd, yn brofiad pleserus. Rhan o hwyl bywyd - a d'oes dim byd o gwbl yn bod ar hynny. Ond i rai, fe all alcohol fod yn broblem. Pan fo hynny'n digwydd mae'n troi bywyd yn uffern. Mae'n chwalu teuluoedd, yn gyrru pobl i ddyled ariannol ac yn lladd miloedd bob blwyddyn.

Eto, salwch ydyw. Fel cancr neu glefyd y galon. Mae meddygon yn derbyn hynny bellach.

Ac fel pob clefyd, mae 'na siawns i'w wella - hyd yn oed i'r sawl sy'n teimlo'n hollol ddiobaith. N'ôl ym 1935, yn America, cyfarfu dau alcoholig. Un yn feddyg a'r llall yn ddyn busnes. R'oedd meddygon wedi dweud nad oedd gobaith iddynt, a byddai alcohol yn eu lladd. Ar ôl trafod eu profiadau a'u cyflwr, fe sylweddolodd y ddau y galle nhw helpu'i gilydd i wella. A dyna ddigwyddodd. Aethant ati wedyn i chwilio am drueiniaid eraill oedd yn yr un sefyllfa. Dyna ddechrau'r mudiad a fedyddiwyd yn "Alcoholics Anonymous".

Erbyn hyn mae miliynau o bobol mewn 140 o wledydd yn mynd i gyfarfodydd AA. Mae degau o'r cyfarfodydd hynny yng Nghymru, gan gynnwys rhai Cymraeg eu hiaith. Ac mae fersiwn Cymraeg o lawlyfr y mudiad ar gael. Trwy ymdrech lew aelodau AA y cyfieithwyd y llyfr o'r un Saesneg. Nid oes gennym swyddfa, staff, na chofrestr o aelodau. D'oes dim tal am fod yn'aelod'.

Os ydych chi - neu rywun sy'n agos atoch - yn dioddef o'r clefyd ofnadwy yma, da chi cysylltwch ag AA. Peidiwch â bod ofn na chywilydd. Cewch gyfle i drafod eich problemau gyda phobol gafodd - neu sy'n cael - yr un profiadau. Bydd rhai ohonom yn newydd i AA . Bydd eraill wedi bod yn sobr ers ugain mlynedd neu fwy. Dim ond ni fydd yn yr ystafell. Dim ond ni sy'n gwybod lle ni'n cwrdd. Dim ond enwau cyntaf ddefnyddiwn. Ac mae'r cyfan a welwn ac a glywn yn cael ei adael yn yr ystafell wag ar ddiwedd y cyfarfod. Mae hynny er mwyn rhoi ffydd i bobl i ddod at AA gan wybod bod y cyfan yn cael ei gadw rhyngddom ni'n gilydd. Bydd neb yn eich beirniadu. Bydd neb yn pregethu. Dim ond eich cyflwyno i'r cynllun syml allai arbed eich bywyd yn y pen draw. Ac mae'n gweithio. Mae miloedd ar filoedd yn fyw heddiw diolch i AA.

Os ydych chi'n teimlo y gallwn ni fod o gymorth i chi neu rywun annwyl i chi sy'n cael problem gydag alcohol, ffoniwch AA ar 0845 7697555 unrhyw bryd o'r dydd neu'r nos. Gofynnwch am rywun sy'n siarad Cymraeg. Bydd ef neu hi yn hapus dros ben i siarad â chi, a rhoi mwy o fanylion. Bydd y person ar bendraw'r ffon yn alcoholig nad yw bellach yn yfed, ac yn deall eich problem yn iawn. Ni fydd rhaid i chi roi'ch enw. Ond fe allai'r un alwad fach yna safio'ch bywyd.

Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

Alcoholigion Anhysbys

Ffonia **0845 76975555** a gofyn am

C

CROESAIR

L



Ar Draws

1) Bod yn gyfarwydd â rhywbeth(6)
4) Diod boeth (4)
8) Pysgodyn: Y Samwn (3)
9) Melyn er enghraifft (3)
11) Defaid Bach (3)
13) Bryncyn (4)
15) Cwch Noa (3)
16) Paid â bod _ _ dwp (2)
17) Gwneud llw: Addunedu (3)18) Mae e'n tyfu barf ar ei _ _ e (2)
19) Pŵer i'r stôf (3)
21) Dim eisiau gweithio: yn segur (4)
23) Eisiau rhywbeth yn arw: Dyheu (3)
25) Gwneud budd (3)
28) Clwb _ _ _ _ Bach (4)
29) Mae'r clustiau'n gwneud hyn (6)

I Lawr

1) Mae'n tyfu ar y pen (5)
2) Glaw, eira neu haul ac ati (1,5)3) Lliw ffrwyth (4)
5) Llosgi'r calch yn hwn (4)
6) Hic! (5)
7) Pen y Bont ar _ _ _ _ (4)
10) Enw dyn (4)
12) Math o anifail o deulu'r fuwch (4)
14) Arwydd o(4)
15) Gwynt neu sawr (5)
16) Tir ynghanol môr (4)
18) Pren Tywyll, Tywyll (5)
20) Mae cyw yn dod allan o hwn (2)
21) Ydi dy dad di yn dy dŷ di dan _ _ _ _ di (2,2)
22) Dim yn dwym (3)
24 Un peth (4)
26 Mur neu _ _ _ (3)
27 Lle i gadw anifeiliaid (2)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX erbyn 26 Gorffennaf 2002

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

DAMWAIN ANGHEUOL: RHIENI'N HEDFAN YN ÔL

Bu raid i weithiwr ffatri awyrennau GEA yn Nantgarw a'i wraig hedfan yn ôl o'u gwyliau ar ôl i'w hunig fab farw mewn damwain ffordd.

Aed â Lance Bath, 23, o Bontypridd, i Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, ar ôl i'w feic modur Honda daro canol ffordd ddeuol yr A470 chwarter milltir o ffordd gysylltu Abercynon.

Bu farw o'i anafiadau. Hedfanodd ei dad, Gary, a'i wraig o Tenerife y bore ar ôl y ddamwain.

"Roedd Lance yn fachan poblogaidd," meddai ffrind i'r teulu, Chris Insole. "Mae'n ergyd ofnadwy i'r teulu ac i'r gymuned. Roedd cariad Lance newydd gael mab."

CYNLLUN E-BOST I GREU 300 O SWYDDI

Mae grŵp o gwmniau cyfathrebu, fydd yn cystadlu â'r Post Brenhinol, yn ystyried sefydlu canolfan wybodaeth yn Nantgarw neu Drefforest.

Eu nod yw creu hyd at 300 o swyddi ac mae Email4all yn edrych yn fanwl ar gynlluniau i ddosbarthu llythyron ac ati drwy e-bost.

"Bydd y cynllun yn costio £35m," meddai llefarydd ar ran y grŵp o gwmniau. "Felly bydd angen £8m o gymorthdaliadau a benthyciadau oddi wrth y Cynulliad a Finance Wales er mwyn i'r cynllun lwyddo."

Dywedodd y gallai'r busnes technoleg gwybodaeth fod yr un mwya yng Nghymru o fewn tair blynedd pe bai'r seiliau ariannol yn sicr.

Criw 'Syniad Sam' o Ysgol Gwaelod y Garth

PLANT GWAELOD YN SERENNU

Llongyfarchiadau i blant Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth ar eu perfformiad yn Syniad Sam, sioe ysgolion cynradd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro.

Roedd y cast yn anferth, y set yn ofodaidd a'r canu a'r dawnsio'n wych. Hyfryd oedd gweld plant ein hysgol gymharol fach ni'n disgleirio ar lwyfan Neuadd Dewi Sant ble mae sêr rhyngwladol yn arfer ymddangos. Mae'n amlwg fod y profiad i'r plant heb ei ail oherwydd nid yn unig enillon nhw hunan-hyder ond fe wnaethon nhw lawer o ffrindiau newydd.

Diolch i bawb am eu holl waith, y rhieni, yr athrawon, ond yn fwy na neb, y plant.

Os ydych yn awyddus i archebu'r lluniau a dynnwyd yn yr ymarferion ac a ddangoswyd yn Newydd Dewi Sant, cysylltwch os gwelwch yn dda â Mrs Rhian Williams yn Ysgol Pencae. Pris y lluniau yw £3 yr un. Mae fideo a chryno ddisg o'r sioe'n cael eu paratoi. Pris y fideo yw £10 a phris y cryno ddisg yw £5. Dylech archebu cyn Gorffennaf 5.

DAU FIS O GARCHAR

Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd Christopher Morgan, 18 oed o'r Hendre, Nantgarw, ei ddanfon i ganolfan troseddwyr ifanc am ddau fis.

Roedd yn euog o ymyrryd â char Ford Fiesta yn Ffynnon Taf, gan fwriadu ei ddwyn, ac o ddwyn fflach lamp.

DYRCHAFIAD I RHYDIAN

Llongyfarchiadau i Rhydian Lloyd sy wedi ei apwyntio'n Ddirprwy Brifathro Ysgol Gwaun y Nant yn y Barri.

Bydd yn gadael Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth ar ddiwedd Tymor yr Haf.

"Mae wedi bod yn aelod staff ers 1999," meddai'r prifathro, Gerwyn Williams, "ac mae wedi chwarae rhan bwysig yn llwyddiant yr ysgol.

"Diolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr a phob lwc iddo yn ei swydd newydd."

DWYLO DROS Y MÔR

Daeth athrawon o Sbaen ac Awstria i Ysgol Gynradd Ffynnon Taf yn ddiweddar.

Y Sbaenwyr oedd Ines Gomez Feito a Maria Jose o Ysgol C P Alejandro Casona o ardal yr Asturias yng ngogledd Sbaen a'r Awstriaid oedd Andrea Putz ac Ursula Spindler o Ysgol Volksschule Dietrack.

Roedd Maer yr Asturias wedi danfon darn o grochenwaith du, traddodiadol o Llamas Del Mouro.

Eleni roedd athrawon y tair gwlad yn cyfnewid syniadau am yr amgylchedd.

FFYNNON TAF, NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

KEVIN YW CHWARAEWR Y FLWYDDYN

Cynhaliwyd Noson Wobrwyo yng Nghinio Blynyddol Clwb Rygbi Ffynnon Taf.

Wrth i'r clwb ddathlu 115 mlynedd o hanes, roedd 150 o westeion yn bresennol, gan gynnwys y Brodyr Williams, Bleddyn, Elwyn, a Lloyd, i wrando ar y siaradwr gwadd, Steve Fenwick.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod y tîm cynta ar ddiwedd y tymor yn drydydd yn y Bumed Adran a bod y tîm wedi sgorio 114 o geisiadau. Joe Sultana, y capten a seren ryngwladol Malta, oedd y sgoriwr ceisiadau gorau (20 cais).

Kevin Dodd oedd Chwaraewr y Flwyddyn, Dave Collins oedd Dyn y Flwyddyn a Paul Williams oedd y sgoriwr gorau (187 o bwyntiau).

GWOBR I CYNTHIA

Mewn seremoni wobrwyo yng Ngwesty'r Parc Treftadaeth yn Nhrehafod, talwyd teyrnged i 22 o wirfoddolwyr yn Rhondda Cynon Taf.

Ymhlith y rhain roedd Cynthia Dyke am ei gwaith diflino ers 18 mlynedd yn ceisio lleihau troseddu yn Ffynnon Taf a'r Cylch.

Cynllun Gwarchod Cymdogaeth Taf Elái oedd wedi ei henwebu.

Cefnogwyr Ysgol Gwaelod y Garth yn Eisteddfod yr Urdd

Baner a gynlluniwyd ac a gynhyrchwyd gan blant Ysgol Gwaelod y Garth ar gyfer y Cylch Meithrin lleol

Dawnswyr Caerdydd yn dathlu Gŵyl Ifan yn Nantgarw

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Gorffennaf 7: Gweinidog (Cymun); Gorffennaf 14: Gweinidog; Gorffennaf 21: Parchedig R Alun Evans; Gorffennaf 28: Gweinidog.

Awst 4: yn Efail Isaf (Cymun); Awst 11: ym Methlehem, manylion i'w cadarnhau; Awst 18: yn Efail Isaf, manylion i'w cadarnhau; Awst 25: ym Methlehem, manylion i'w cadarnhau.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

CYLCH TI A FI Ffynnon Taf: brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GYNRADD GWAELOD-Y-GARTH: Gorffennaf 1: Cyfarfod Blynyddol Llywodraethwyr a Rhieni; Gorffennaf 4: Cystadleuaeth Criced, Gerddi Sophia, Caerdydd; Gorffennaf 4: Ymweliad Blwyddyn 6 Saesneg i Ysgol Gyfun Radyr; Gorffennaf 5: Blwyddyn 6 Cymraeg ym Mabolgampau Ysgol Gyfun Plasmawr; Gorffennaf 9 a 16: Noson Agored a Ffair Llyfrau; Gorffennaf 19: Diwedd y Tymor.

YSGOL CASTELLAU

Eisteddfod yr Urdd.
Llongyfarchiadau i barti llefaru yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Diolch i Miss Petra Davies am hyfforddi'r plant.

Ymweliad.
Daeth Daniel Evans sef brawd Mrs Heddwen Cross i siarad â blwyddyn 4 / 5 am ei brofiadau tra'n gweithio a byw yn Ffrainc. Profodd y plant fwyd Ffrengig a dysgodd Daniel ganeuon Ffrengig iddynt. Roedd y plant wrth eu bodd.

Ymweliad y trychfilod.
Daeth 'Carol's Critters', i arddangos trychfilod i'r babanod ym mis Mehefin. Roedd y plant wrth eu bodd yn cyffwrdd ac yn dal y nadroedd a'r pry cop.

Trawsgwlad.
Cafwyd llwyddiant ysgubol yng nghystadleuaeth yr Urdd ar gaeau'r Brifysgol yn Nhrefforest. Daeth Joshua Jones Blwyddyn 6 a Mitchell Jenkins Blwyddyn 5 yn ail yn eu rasus hwy. Daeth tîm bechgyn Blwyddyn 6 yn gyntaf gyda thîm bechgyn Blwyddyn 5 a merched Blwyddyn 6 yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Ffarwelio.
Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â Mrs Heddwen Cross. Bu Mrs Cross yn dysgu yn yr Adran Iau ers tair blynedd. Pob lwc iddi yn y dyfodol. Bydd Miss Kate Thomas yn dechrau ym mis Medi. Ffarweliwn hefyd â Mrs Lesley Jones cynorthwydd dosbarth yn yr ysgol. Diolch yn fawr i'r ddwy am eu holl waith a chydweithrediad dros y dair blynedd diwethaf.

Gweithgareddau diwedd y tymor.
Ar ddydd Gwener Mehefin 21 treuliodd disgyblion blwyddyn 6 ddiwrnod yn Rhydfelen. Cawsant hwyl yno a phob un yn edrych ymlaen yn eiddgar at fis Medi.

Tenis
Bydd plant blwyddyn 6 hefyd yn brysur dydd Gwener nesaf yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth tenis yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant.

Dyddiadau Pwysig i'r ysgol.
Gorff. 3 Prynhawn agored yn yr ysgol.
Gorff 5 Ffair Haf 4 tan 6
Gorff 6 Parti Ponty.
Gorff 15 Mabolgampau'r Babanod - prynhawn.
Gorff 16 Mabolgampau'r Adran Iau - prynhawn.
Gorff 17 Martyn Geraint yn diddanu'r Babanod, 4-5
Gorff 17 Disgo'r Adran Iau 6 tan 7.15
Gorff 18 Taith yr Adran Iau i Barc Oakwood.

Dymunwn wyliau hapus a diogel i bawb.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD YR URDD 2002

Parti Dawns dan 10 oed : Oedran Blwyddyn 4 ac iau: 1af Ysgol Gynradd Heol y Celyn, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Cân Actol dan 12 oed : Oedran Blwyddyn 6 ac iau (D): 2il Ysgol Gynradd Heol y Celyn, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Cystadleuaeth y Fedal Lenyddiaeth
2il Catrin Elin Dafydd, Gwaelod y Garth. Cylch Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion: 3ydd Catrin Elin Dafydd, Gwaelod y Garth. Cylch Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion

Parti Unsain : Oedran Blwyddyn 6 ac iau (Ysgolion â dros 50 o blant rhwng 4-11oed): 3ydd Ysgol Gynradd Heol y Celyn, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Ymgom dan 12 oed (D)
1af Ysgol Gynradd Heol y Celyn, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Côr Adran dan 12 oed: 2il Adran Pont Sion Norton, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Can Roc : dan 15 oed: 3ydd Grwp Angharad, Cylch Llantrisant, Rhanbarth Bro Morgannwg

Llefaru Unigol 12-15 oed: 3ydd Berwyn Pearce, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Grwp Llefaru : 12-15 oed: Oedran Blynyddoedd 7,8 a 9 (Y.U.): 2il Ysgol Gyfun Rhydfelen, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Grwp i gyflwyno Detholiad Llafar: 12-15 oed: Oedran Blynyddoedd 7,8 a 9 (Y.U.): 2il Ysgol Gyfun Llanhari, Cylch Llantrisant, Rhanbarth Bro Morgannwg

Dawns Unigol i Fechgyn 12-15 oed
1af Eifion Weinzweig, Cylch Llantrisant, Rhanbarth Bro Morgannwg

Cystadleuaeth y Gadair 14-25 oed
2il Aneirin Karadog, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Unawd Merched 15-19 oed
3ydd Sophie Jones, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Cor Bechgyn T.B. : Oedran Blynyddoedd 13 ac iau (Y.U.): 1af Ysgol Gyfun Rhydfelen, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Unawd Llinynnol 15-19 oed: 3ydd Ciaran Jenkins, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Côr Cerdd Dant (Deusain neu fwy) : Oedran Blynyddoedd 13 ac iau (Y.U.) 2il Côr Rhydfelen, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Grwp Llefaru Oedran Blynyddoedd 10-13 (Y.U.): 1af Ysgol Gyfun Rhydfelen, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Detholiad Llafar Grwp 15-19 oed: Oedran Blynyddoedd 10-13 (Y.U.)
3ydd Ysgol Gyfun Llanhari, Cylch Llantrisant, Rhanbarth Bro Morgannwg

Deuawd Piano : dan 19 oed
3ydd Betsan a Osian, Cylch Pontypridd, Rhanbarth Blaenau Morgannwg

Unawd Offerynnol : 19-25 oed
3ydd Lowri Mair Jones, Pontypridd. Cylch Tu allan i Gymru, Rhanbarth Tu allan i Gymru

Llefaru Unigol : 19-25 oed
2il Catrin Heledd, Pentyrch. Cylch Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion

Chwarter awr o Adloniant: 14-25 oed
2il Aelwyd Teulu Twm, Cylch Llantrisant, Rhanbarth Bro Morgannwg

Llongyfarchiadau i'r Urdd ar ddarparu gwasanaeth canlyniadau cynhwysfawr ar y we ac ar y CD Celf.

DISGYBL LLEOL YN ENNILL LLE YNG NGHOLEG BYD UNEDIG

Mae Becky Davies, disgybl lleol o Lanilltud Faerdref, ger Pontypridd, wedi ennill lle yn un o Golegau'r Byd Unedig enwog. Ar hyn o bryd mae hi'n dilyn cwrs TGAU yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Fe fydd Becky yn mynychu Coleg Iwerydd am ddwy flynedd i ddilyn y Baccalaureat Rhyngwladol sydd yn sialens academaidd, ynghyd â rhaglen amrywiol o wasanaeth cymunedol, gweithgareddau creadigol a sialens bersonol. Y Colegau Byd Unedig (CBU) yw'r unig fodel addysgol rhyngwladol sy'n dod â myfyrwyr o ar draws y byd at ei gilydd yn y cyfnod cyn addysg uwch, heb ystyried y gallu i dalu, sydd o dan arweiniaeth EM Brenhines Noor o'r Iorddonen, a chyn Arlywydd De'r Affrig, Nelson Mandela. Dewisir myfyrwyr yn ôl eu gallu, ac maent yn byw gyda'i gilydd mewn awyrgylch sy'n magu dealltwriaeth rhyngwladol, heddwch a chyfiawnder.

Sefydlwyd Coleg Iwerydd, y CBU cyntaf, gan yr addysgwr Kurt Hahn yn 1962, a cafodd y syniad y gellir gwneud rhywbeth i oresgyn y gwrthdaro a grëwyd gan y Rhyfel Oer os gallai pobl ifanc ddod at ei gilydd o'u seiliau diwylliannol, yn barod i ddysgu oddi wrth eraill.

Erbyn hyn mae yna ddeg Coleg Byd Unedig, wedi eu sefydlu ar draws y byd o Gymru i Ganada, pob un yn unigryw o rhan cymeriad, ond yn dilyn neges heddwch a dealltwriaeth rhyngwladol sydd mor berthnasol ag y bu erioed. Fel arfer mae yna fwy na 80 o wahanol genhedloedd wedi eu cynrychioli mewn Coleg ar unrhyw bryd, ac mae'r cefndir cymdeithasol yn amrywiol.

Un o bedwar deg o fyfyrwyr a ddewiswyd o Brydain Fawr y flwyddyn yma yw Becky, ac fe aeth drwy broses o wneud cais a chyfweliadau yn gynharach yn y flwyddyn.

Dywedodd Becky: *"Rwy'n arbennig o falch o gael y cyfle i fynychu un o Golegau'r Byd Unedig! Yn y byd newidiol yma, mae dealltwriaeth ryngwladol a diwylliannol yn allweddol i greu heddwch. Rwy'n gobeithio trwy fod yng Ngholeg Iwerydd, y byddaf yn ehangu fy ngorwelion diwylliannol, ynghyd â chreu sialens i fi fy hun i chwarae rhan yn fy nghymuned a dysgu sgiliau newydd."*

Am wybodaeth bellach am y Colegau Byd Unedig, a sut i wneud gais ymwelwch â www.uwc.org.uk, www.uwc.net neu ffoniwch Coleg Iwerydd ar 01446 799000.

CYRRI A CHYNGHANEDD

Os ydych chi wedi cael llond bol o gaws a gwin, llenwch eich bol a bodlonwch eich awen gyda nosweithiau Cyrri a Chynghanedd, Gemau Olympaidd Scrabble, Campau Barddoniaeth a chlybiau llyfrau ar ôl ysgol yn y siop lyfrau newydd o'r enw Cab@n, yng Nghaerdydd, a agorwyd ar Fehefin yr 22ain 2002.

Mae Helen Thomas, cyn athrawes Saesneg yn Ysgol Gyfun Llanhari, cyn-bennaeth Saesneg Ysgol Gyfun Rhydywaun a chyd-berchennog Cab@n, yn edrych ymlaen at ei phrofiad cyntaf ym myd busnes: "Mae nosweithiau Cyrri a Chynghanedd yn ffordd wych o ddangos fod diwylliant a llenyddiaeth Cymru yn fyw ac yn iach, yn gosmopolitan ac yn awyddus i dorri tir newydd. Mi fydd Cab@n yn rhannu'r weledigaeth sydd wedi arwain at ymgais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop 2008 - dinas sy'n cefnogi unigolion a chymunedau wrth iddyn nhw ddathlu diwylliant gyda chelfyddyd".

Mae mwy ar fwydlen Cab@n na danteithion a barddoniaeth. Mi fydd yn gartref ysbrydoledig i bob math o gelf a chrefft, yn eu plith arddangosfeydd a digwyddiadau'n amlygu doniau Cymreig. Y cyntaf i'r felin fydd Elfyn Lewis. Mae gwrthdrawiad dramatig a gosgeiddig coch a glas ei balette wedi ymddangos ar gloriau Catatonia a Big Leaves. Ar hyn o bryd mae'n darganfod sut mae grym geiriau ac enwau yn dylanwadu ar ei ddychymyg ac yn ystyried fod arddangos yn Cab@n yn adlewyrchu ac yn hybu ei ymdrech.

Yn y cyfamser mi fydd y siop lyfrau yn cynnig llyfrau o bob lliw a llun, o ffefrynnau plant i ffuglen oedolion. Yn unôl â'r athroniaeth, Cymry fydd amlycaf - yn eu plith yr awdur plant Jenny Sullivan, sef y J K Rowling nesaf yn ôl The Observer. Yn ôl cyd-berchennog Cab@n, Nia Owen, sy'n gyn niwro-ffisiotherapydd ac sydd hefyd yn dechrau busnes am y tro cyntaf, "Mae gan Gymru gymaint o ddawn lenyddol a chelfyddydol, ond mae gymaint ohoni'n anadnabyddus i'r cyhoedd. Agwedd cwmnïau llyfrau mawrion sy'n rhannol ar fai, gan fod llyfrau Cymreig a Chymraeg yn hel llwch yn yr adran "Diddordeb Lleol". Ein bwriad yw cydweithio'n agos gyda chyhoeddwyr Cymreig, Y Cyngor Llyfrau a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau fod Cab@n yn amlygu ein doniau fel cenedl. Dyma un o'r rhesymau pam ein bod yn cynnal gweithgareddau sy'n cyd-fynd â'r traddodiad gwerthfawr tra ar yr un pryd yn ei foderneiddio a'i ddiweddaru - a dyna sy'n esbonio'r cyrri!"

Oriau Cab@n yw 9am - 5pm, dydd Llun i ddydd Sadwrn (ar wahân i ddigwyddiadau arbennig).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch a Siân Hughes, Cysylltiadau Cyhoeddus, (029) 2021 3120 neu 07814 565 017 neu sianhughes@sehughes.fsnet.co.uk neu ffoniwch Cab@n yn uniongyrchol ar (029) 2084 2691

Cornel y plant

Cyn bo hir cewch gyfle i fynd ar wyliau. Cyn cychwyn bydd angen dillad addas arnoch. Tybed allwch chi gofio pa ddillad fydd yn addas at pa dywydd?



Pa le fydd gennych wrth roi llythyren gyntaf i'r atebion hyn?

Mae digon ar lan y môr __
Darn o dir yn y môr __
Y diwrnod cyn heddiw __
Cyfandir __
Daw cyw o hwn __
Dŵr wedi rhewi __

Beth sy'n digwydd yno ym mis Awst?

'PLAS Y DDRAIG'

Sut yr hoffech chi dreulio tair wythnos ar y piste yn sgïo, snowboardio, sglefrio a chymryd rhan mewn pob math o chwaraeon eira, a hynny am ddim? Sut yr hoffech chi dreulio'ch diwrnodiau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored cyffrous ac anturus yn nhywydd braf Ffrainc, a chambihafio ym mariau yr Alpau gyda'r nos?

Bydd Teledu Apollo yn dewis chwech o bobol ifanc lwcus i brofi'r holl gyffro ar gyfer cyfres newydd sydd yn cael ei ffilmio yn ystod mis Awst 2002. Mae'r cwmni yn chwilio am bobol ifanc o bob rhan o Gymru sydd yn barod am antur, ac sy'n barod i'r camerau teledu eu dilyn nhw bob cam o'r ffordd.

Bydd y chwech lwcus yn byw mewn caban ym mhentre Tignes ger Val D'Isere yn un o'r ardaloedd sgïo mwyaf ac uchaf yn Ewrop. Dyma hefyd un o'r ardaloedd prydferthaf yn yr Alpau sydd yn ganolbwynt i bob math o chwaraeon gwahanol. 'Plas y Ddraig' yw enw'r caban ac mae'n cael ei redeg gan ddau frawd o Gaerdydd. Yn ogystal â chwaraeon eira bydd cyfle i feicio mynydd, canwio, rafftio dŵr gwyn, nofio dŵr gwyn, hwylio, hwylfyrddio, beicio modur pedair olwyn, marchogaeth ceffylau a llawer mwy! Ac ar ôl diwrnod llawn cyffro ac antur bydd cyfle i ymlacio yn y sauna a'r jacuzzi cyn mynd am noson wyllt allan o gwmpas y bariau a'r clybiau.

Felly os ydach chi'n ffansio amser llawn cyffro am ddim yn Ffrainc, neu'n gwybod am rywun fyddai a diddordeb mewn cymryd rhan rhowch ganiad i Teledu Apollo nawr!

Am ragor o fanylion cysylltwch a Huw Eurig Hughes neu Dwynwen Haf Wyn ar 02920 251811.